Deddf Safonau Gofal 2000

# CYNGOR GOFAL CYMRU

# CARE COUNCIL FOR WALES

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON

# 2009 –2010

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cyngor Gofal Cymru a baratowyd yn ôl Atodlen 1, Adran 18(2) ac 19(1) Deddf Safonau Gofal 2000, ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 ynghyd ag Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru gyda hynny ac

A gyflwynwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 10 Awst 2010 yn ôl Deddf Safonau Gofal 2000 Atodlen 1 Adran 18(4)

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON

# 2009/2010

## CYNNWYS


| | Tudalen |
|---|---|
| **Adroddiad y Prif Weithredwr** | 2 |
| **Sylwebaeth Reoli** | 6 |
| **Adroddiad ar Gyflogau** | 12 |
| **Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor Gofal a'r Prif Weithredwr** | 15 |
| **Datganiad ar Reolaeth Fewnol** | 16 |
| **Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru** | 19 |
| **Cyfrif Gwariant Net** | 21 |
| **Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol** | 22 |
| **Datganiad ar Lifoedd Arian** | 23 |
| **Datganiad ar Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr** | 24 |
| **Nodiadau i'r Cyfrifon** | 25 |

# Adroddiad y Prif Weithredwr

### Hanes a Chefndir Statudol

Sefydlwyd Cyngor Gofal Cymru (y Cyngor Gofal) gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, a daeth i fodolaeth ar 1 Hydref 2001. Mae gan y Cyngor Gofal swyddfeydd yng Nghaerdydd ac yn Llanelwy yng ngogledd Cymru.

Mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hyn, y nawfed sydd wedi'u paratoi gan y Cyngor Gofal, ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2010. Paratowyd yr Adroddiad o dan Atodlen 1, Adrannau 18(2) ac 19(1) Deddf Safonau Gofal 2000; fe'i cyflwynir mewn ffurf a gyfeiriwyd gan Weinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth Trysorlys Ei Mawrhydi. Gellir cael copi o'r cyfarwyddyd cyfrifon o swyddfeydd y Cyngor Gofal.

### Aelodau'r Cyngor Gofal

Ar 31 Mawrth 2010 roedd pymtheg o aelodau, gan gynnwys y Cadeirydd a benodwyd gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r aelodaeth yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth, cynhalwyr, y cyhoedd, cyflogwyr, undebau llafur, buddiannau addysg a hyfforddiant, a chymdeithasau proffesiynol. Yn ystod y flwyddyn, daeth pum aelod (gan gynnwys y Cadeirydd) at ddiwedd eu haelodaeth a phenodwyd pedwar aelod (gan gynnwys y Cadeirydd).

### Aelodau'n gwasanaethu o 1 Ebrill 2009 i 31 Mawrth 2010

| Aelod | Buddiant |
|---|---|
| Peter Crews | Undebau Llafur |
| Ian Davies | Defnyddwyr Gwasanaeth |
| John Dixon | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Stephen Elliott | Sefydliadau Proffesiynol |
| Kate Hawkins | Addysg a Hyfforddiant |
| Sophie Howe * | Y Cyhoedd |
| Martin Lewis | Cynhalwyr |
| Mary Amelia Lyons | Addysg a Hyfforddiant |
| Martyn Pengilley | Y Cyhoedd |
| Brian West | Cyflogwyr y Sector Preifat |
| Ellis Williams | Cyflogwyr |

### Diwedd aelodaeth

| Aelod | Buddiant |
|---|---|
| Mutale Merrill (Gorffennaf 2009) | Cadeirydd |
| Judith Jones (Rhagfyr 2009) | Cynhalwyr |
| Elizabeth Williams (Rhagfyr 2009) | Defnyddwyr Gwasanaeth |
| Vera Wilson (Rhagfyr 2009) | Y Cyhoedd |
| Penny Gripper (Ionawr 2010) | Defnyddwyr Gwasanaeth |

*****Ataliwyd aelodaeth Sophie Howe dros dro o fis Gorffennaf 2009 yn sgil penodiad pellach yn Llywodraeth Cynulliad Cymru a allai achosi gwrthdaro buddiannau.

**Penodwyd yn ystod y flwyddyn**

| **Aelod** | **Buddiant** |
|---|---|
| Arwel Ellis Owen (Awst 2009) | Cadeirydd |
| Philip Champness (Hydref 2009) | Y Cyhoedd |
| Kenneth Jones (Ebrill 2009) | Cynhalwyr |
| Roger Gant (Gorffennaf 2009) | Cyflogwyr y Sector Gwirfoddol |

Mae cofrestr o fuddiannau datganedig aelodau ar gael i'w harchwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfa'r Cyngor Gofal, Southgate House, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW.

Yn unol ag arfer gorau ac arweiniad, sefydlodd y Cyngor Gofal Bwyllgor Archwilio ar adeg ei greu, a daw'r aelodaeth o Aelodau'r Cyngor. Mae cynrychiolwyr archwilio mewnol ac allanol a chynrychiolwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynychu'r cyfarfodydd.

**Cynaliadwyedd**

Mae'r Cyngor Gofal fel Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad yn ymroddedig i adolygu ei arferion amgylcheddol yn barhaus er mwyn lleihau ei effaith ar yr amgylchedd. Yn 2006 llwyddodd y Cyngor Gofal i ennill achrediad Lefel Dau y Ddraig Werdd[1] ac yn 2009 cafodd ei ail-archwilio'n llwyddiannus a chynnal yr achrediad. Mae'r Cyngor Gofal hefyd yn gweithio ar hyn o bryd tuag at ennill lefel tri Fframwaith Gweithredu Caffael Cynaliadwy Gwerth Cymru a Lefel 5 yn yr adran Rheolaeth. Er mwyn cyflawni'r ddwy Safon hon, mae gan y Cyngor Gofal gynllun gwella blynyddol sy'n cynnwys pob aelod o staff yn y gwaith o gyflawni'r cynllun.

Cyflawniadau allweddol cynllun gwella 2009-10 oedd:

- Mae'r holl ddogfennau a gynhyrchir yn cael eu hargraffu ar 90% neu fwy o ddeunydd wedi'i ailgylchu ac mae'r logo priodol yn dangos hyn.
- Cynhwysir ffactorau cynaliadwyedd fel meini prawf dyfarnu wrth werthuso caffael corfforaethol gyda chontractau newydd yn cael eu dyfarnu ar gyfer
    - Glanhau - mae'r darparwr newydd yn fwy effeithlon ac yn defnyddio cynhyrchion gwyrdd yn unig; mae wedi ennill achrediad y Ddraig Werdd ei hun.
    - Deunydd papur – contract newydd wedi'i drafod, ac mae'n darparu cyfanswm o 50% o'r nwyddau a archebir amlaf fel cynhyrchion gwyrdd.
    - Desgiau a Phedestalau – roedd y celfi newydd ar gyfer yr adeilad newydd o amrywiaeth o gelfi carbon niwtral y gellir eu hailgylchu'n llawn.
- Meddalwedd ariannu myfyrwyr wedi'i brynu er mwyn galluogi lawrlwytho pob ffurflen a'u dychwelyd yn electronig.
- Pob gweithfan bellach wedi'u ffitio â botymau Eco – dyfeisiadau sy'n galluogi'r defnyddiwr i droi'r cyfrifiadur i'r modd arbed ynni yn awtomatig.
- Yr holl nwyddau hyrwyddo yn ecogyfeillgar
- Gellir cwblhau taliadau gan Gofrestreion ar-lein erbyn hyn gan leihau'n sylweddol yr angen i anfon ffurflenni copi caled ac yn galluogi cysylltu drwy'r e-bost.
- Mae cynllun newydd ar gyfer benthyciadau Beic neu docynnau tymor trên/bws ar gael i'r staff yn awr.

[1] Safon raddedig yw Safon y Ddraig Werdd sy'n cydnabod rheolaeth amgylcheddol effeithiol. Mae'r Safon yn cynnig system rheolaeth amgylcheddol sy'n berthnasol i anghenion penodol cwmnïau a sefydliadau, ac mae'n gwobrwyo camau a gymerwyd i wneud gwelliannau amgylcheddol.

Mae hyn yn ychwanegol at y safonau y mae'r Cyngor Gofal yn eu cynnal, gan gynnwys defnyddio technoleg fideo a thelegynadledda rhwng swyddfeydd yn lle teithio, a holl bapur copïwyr yn bapur y gellir ei ailgylchu'n llwyr.

**Rhoddion Elusennol**

Mae'r Cyngor Gofal wedi cynnal trafodion â chyrff elusennol wrth gyflawni ei fusnes arferol yn ystod y flwyddyn, ond ni wnaeth unrhyw roddion elusennol yn ystod y flwyddyn (2008-09 Dim).

**Talu Credydwyr**

O dan Deddf Hwyr-dalu Dyledion Masnach (Llog) 1998, mae'n ofynnol i'r Cyngor Gofal dalu anfonebau diddadl cyflenwyr yn ôl telerau ac amodau cytundebau cytûn, neu cyn pen 30 niwrnod o dderbyn nwyddau neu wasanaethau. Cyflawnwyd hyn ar gyfer 98% o'r holl anfonebau o'r fath yn ystod 2009-10 (2008-09 – 99%), ac ni thalwyd ac nid oedd unrhyw Log Dyledion Masnach yn ddyledus ar gyfer trafodion yn ystod 2009 - 10.

**Polisi Cyflogaeth**

Mae gan y Cyngor Gofal statws "Buddsoddwyr mewn Pobl" ac mae ei bolisïau adnoddau dynol yn adlewyrchu arfer gorau fel rhan o'i ymrwymiad i fod yn sefydliad sy'n dysgu. Mae'r Cyngor Gofal yn arfer polisi cyfle cyfartal wrth recriwtio, datblygu a dyrchafu staff. Rhoddir ystyriaeth lawn i geisiadau am gyflogaeth gan bobl anabl, lle bo ganddynt y sgiliau a'r galluoedd priodol i gyflawni'r gwaith.

**Cynllun Pensiwn Cyflogeion**

Mae'r Cyngor Gofal yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef cynllun a ariennir gan nifer o gyflogwyr. Mae gweddill y gwarged neu'r diffyg sy'n codi o gymharu asedau a rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn cyflogeion yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol a'i ddangos ar Ddatganiad o Sefyllfa Ariannol y Cyngor Gofal. Trafodir materion pensiwn yn fanylach yn yr Adroddiad ar Gyflogau a nodyn 16 ar dudalen 36 yr Adroddiad hwn.

**Ymgysylltiad Cyflogeion a Darparu Gwybodaeth**

Mae'r Cyngor Gofal yn cydnabod pwysigrwydd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am ddatblygiadau a newidiadau, ac mae wedi mabwysiadu egwyddorion didwylledd a chyfranogiad yn ei sefydliad; mae staff yn cael gwybodaeth drwy ddogfennau ysgrifenedig, trafodaethau anffurfiol, cyfarfodydd gwybodaeth, cyfarfodydd tîm a thrwy'r Cyngor Staff. Mae'r Cyngor Gofal yn cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac mae'n darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

**Absenoldeb Salwch**

Lefel salwch y staff yn ystod 2009-10 oedd 2.88% (2008-09:3.84%) sy'n seiliedig ar golli 649.5 diwrnod o'r 22,539 diwrnod a oedd ar gael.

**Archwilwyr**

Mae Atodlen 1(18)4 Deddf Safonau Gofal 2000 yn pennu y bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilio, ardystio ac adrodd ar gyfrifon blynyddol y Cyngor Gofal.

O 2007/08 ymlaen, ymgymerodd Grant Thornton â'r gwaith archwilio manwl i ategu barn Archwilydd Cyffredinol Cymru.

### Taliadau i Archwilwyr am waith heblaw am waith archwilio

Gwnaed cyfanswm o £7,541 o daliadau i'n Harchwilwyr Mewnol, PricewaterhouseCoopers, am waith ymgynghorol yn 2009-10. Yn 2008-09 gwnaed taliadau o £20,265 i PricewaterhouseCoopers am waith ymgynghorol.

### Datganiad

Cadarnhaf, hyd eithaf fy ngwybodaeth, nad oes unrhyw wybodaeth berthnasol nad yw archwilwyr y Cyngor Gofal yn ymwybodol ohoni. Rwyf wedi cymryd yr holl gamau y disgwylid ohonof i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Rhian Huws Williams
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo

Dyddiad: 22 Gorffennaf 2010

## Sylwebaeth Reoli

Fe wnaeth gwaith y Cyngor Gofal yn 2009/10 adeiladu ar gyflawniadau'r blynyddoedd blaenorol o ran cyflawni ei gylch gwaith i gynnal a datblygu gweithlu gofal cymdeithasol o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion pobl Cymru yn effeithiol dros y blynyddoedd i ddod. Mae ein hymagwedd at ein gwaith yn un sy'n canolbwyntio ar bobl, ac mae defnyddwyr gwasanaeth a chynhalwyr yn cyfranogi'n weithredol wrth gynllunio, cyflwyno a llywodraethu ein gwaith. Fel corff rheoleiddio, mae ein hethos yn un sy'n defnyddio rheoleiddio fel un elfen o'r agenda gwelliant parhaus ar gyfer y gweithlu a'r sector.

Mae'r Cyngor Gofal yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ogystal â sefydliadau eraill yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru; gwasanaethau cyhoeddus ehangach fel iechyd, addysg a thai; a thu hwnt i Gymru, gyda chyrff rheoleiddio eraill a chynghorau sgiliau sector o dair gwlad arall y DU. Ein nod yw sicrhau mwy o berchnogaeth o weithio traws-broffesiynol a thraws-sefydliadol, gan ddefnyddio arfer gorau a rhannu arbenigedd a gwybodaeth.

Mae ein cylch gwaith rheoleiddio yn darparu cofrestr o ymarferwyr penodol i Gymru i ni sydd wedi ymrwymo i'r Cod Ymarfer, ac yr ystyrir eu bod yn addas i ymarfer. Mae'r gofrestr hefyd yn rhoi gwybodaeth i ni am dueddiadau a phroffil gweithlu cofrestredig Cymru. Mae'r pwerau gennym i ymchwilio i arfer gwael a mynd i'r afael ag ef fel rhan o agenda ehangach i hyrwyddo safonau arfer uchel a hyder yn y gweithlu, a chryfhau diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Yn ein rôl datblygu ac yn ein cylch gwaith fel y Cyngor Sgiliau Sector, yr ydym yn ei chyflawni ar gyfer y sector fel rhan o Sgiliau Gofal a Datblygu (SGD), mae gennym ymgysylltiad ag ystod eang o gyflogwyr, ymarferwyr, defnyddwyr gwasanaeth a chynhalwyr, yn ogystal â darparwyr addysg a dysgu. Mae hyn yn sicrhau bod gennym wybodaeth gyfoes am ofynion y sector yn y dyfodol, o ran rolau, sgiliau a gwybodaeth. Mae hyn yn ein galluogi i ddatblygu safonau a chymwysterau, a'r mentrau i alluogi cyflogwyr i recriwtio, cadw a chynorthwyo ymarferwyr a sicrhau bod y wybodaeth a'r sgiliau cywir ganddynt i sicrhau ymarfer o ansawdd uchel.

Mae ein rhaglenni gwaith yn cefnogi cyflwyno'r strategaeth 10 mlynedd ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol, a amlinellwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2008 yn *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol*. Mae hyn yn golygu bwrw ymlaen â datblygu'r gweithlu yn llwyddiannus er mwyn darparu'r wybodaeth a'r sgiliau i unigolion y mae eu hangen arnynt i gael cyflogaeth, cyflawni bodlonrwydd personol a bodlonrwydd o ran gyrfa a chyfrannu at fywyd cymunedol.

Yn 2009/10, cychwynnodd y Cyngor Gofal ar nifer o brosiectau pwysig a fydd â rolau hollbwysig o ran cynnal a datblygu gweithlu gofal cymdeithasol o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion pobl Cymru yn effeithiol dros y blynyddoedd i ddod.

Ymhlith y rhain oedd astudiaeth 18 mis, y cyntaf o'i math yn y DU, i gael darlun manwl o'r gweithlu gofal yn y cartref yng Nghymru, a sut y gellir ei lywio i fodloni gofynion y dyfodol. Yn ystod y flwyddyn, aeth y Cyngor Gofal ati hefyd i ddechrau pennu cwmpas model ar gyfer llwybr gyrfa cenedlaethol i weithwyr cymdeithasol yng Nghymru. Y nod oedd rhoi gwedd gliriach ar gyfleoedd gyrfa a chryfhau cyfraddau cadw gweithwyr cymdeithasol profiadol mewn rolau llinell flaen fel y gallant barhau i sicrhau ansawdd uchel yn eu hymarfer ym mhob cyfnod yn eu gyrfaoedd. Mae'r sector am flynyddoedd lawer wedi arddel pwysigrwydd cymwysterau diweddar, perthnasol. Eleni, gwelwyd datblygu a moderneiddio nifer o gymwysterau'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol, a dechreuwyd gwaith ar rai eraill fel rhan o ddiwygio

cymwysterau galwedigaethol ar raddfa fawr, a datblygu'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau newydd. Y canlyniad fydd cymwysterau sy'n hwylus, yn hygyrch, yn hyblyg ac yn addas i'r diben, yn galluogi pobl i adeiladu eu cymwysterau i fodloni eu gyrfaoedd datblygol a chyflawni cymhwysedd i ddiwallu anghenion cyflogwyr a defnyddwyr gwasanaeth. Rhoddwyd ffocws sylweddol hefyd ar y sector plant a'r blynyddoedd cynnar, gan gynnwys diweddaru'r gwaith o bennu cwmpas a mapio'r gweithlu, a ddechreuwyd gyntaf yn 2005.

Ymgymerwyd â'r prosiectau hyn yn ystod y flwyddyn yn erbyn cefndir o fentrau gan y Llywodraeth i barhau i drawsnewid gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Tynnodd Llywodraeth y Cynulliad sylw at bwysigrwydd swyddogaeth reoleiddio'r Cyngor Gofal fel rhan o'r agenda gwella a diogelu ehangach pan gyhoeddwyd y byddai'r grwpiau cyflogeion a oedd i'w cofrestru'n orfodol gyda'r Cyngor Gofal yn cael eu hymestyn yn ail hanner 2010/11. Y cyntaf i orfod cofrestru fyddai holl reolwyr cartrefi gofal preswyl oedolion, gyda rheolwyr ym maes gofal cartref yn gorfod cofrestru yn 2012.

Mae hyn yn adeiladu ar y cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud yn sgil cyflwyno cofrestru gorfodol ar gyfer rheolwyr a staff sy'n gweithio ym maes gofal preswyl i blant yn 2007. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gofrestru pob un o'i rheolwyr a'i gweithwyr ym maes gofal preswyl plant, ac yn 2008/09, defnyddiodd y Cyngor Gofal y data i gynhyrchu proffil cynhwysfawr o'r gweithlu ac i lywio rhaglen fwy o ddatblygu ar gyfer y sector hwn. Mae data wedi'i ddiweddaru o gofrestr y Cyngor Gofal yn 2009/10 yn dangos i ni fod y sector wedi bod yn sefydlog yn gyffredinol dros y 12 mis diwethaf, er y bu rhywfaint o symud ymhlith rheolwyr i mewn ac allan o'r sector, ac i swyddi newydd yn ystod y flwyddyn.

Fe wnaeth gadarnhau hefyd fod yr holl reolwyr gofal plant preswyl wedi ennill y cymhwyster sylfaenol gofynnol, tra bod hanner y gweithwyr eraill yn meddu ar y cymhwyster sylfaenol o leiaf. Bydd gwaith yn cael ei wneud y flwyddyn nesaf ar fentrau i helpu gweithwyr i ennill y cymhwyster gofynnol erbyn iddynt orfod adnewyddu eu cofrestriad.

Bydd y wybodaeth a gesglir o'r sector gofal plant yn cael ei diweddaru'n flynyddol, a bydd yn helpu'r Cyngor Gofal, Llywodraeth y Cynulliad a'r sector i gynllunio ei waith er mwyn sicrhau y bydd gan blant mewn gofal yng Nghymru weithlu sydd wedi'i hyfforddi'n dda i'w cefnogi.

Ar ddiwedd 2009/10, roedd dros 9,600 wedi cofrestru yn y Gofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol, sef cynnydd o 11% ar yr un adeg y flwyddyn flaenorol. O'r rhain, roedd 57% yn weithwyr cymdeithasol, 21% yn rheolwyr ac yn weithwyr ym maes gofal preswyl plant, 9% yn fyfyrwyr, gyda'r 13% arall yn cynnwys grwpiau o weithwyr gofal cymdeithasol a oedd wedi cofrestru'n wirfoddol. Mae'r cynnydd ychwanegol yn y cofrestru yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gofrestru gorfodol yn hytrach na chofrestru gwirfoddol.

Fe wnaeth yr ymgyrch *Hyder mewn Gofal* hyrwyddo'r Codau Ymarfer a'u defnydd trwy gyfarfodydd, cyflwyniadau, arddangosfeydd a seminarau, a thrwy ledaenu ystod o ddeunyddiau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a chyflogwyr.  Dangosodd gwerthusiad o'r ymgyrch nid yn unig gynnydd yn y niferoedd o ddeunyddiau y gwnaed cais amdanynt, ond hefyd enghreifftiau o ddefnydd ehangach ar draws y sector.

Mae pwerau rheoleiddio'r Cyngor Gofal wedi rhoi ffocws manylach o lawer ar safonau ymarfer, gyda chynnydd o 7.5% yn nifer y cyfeiriadau ar gyfer ymchwiliadau yn 2009/10. Mae'n debygol bod y cynnydd yn y nifer yn cyfateb i ehangu cofrestru gorfodol, a bydd yn parhau i gynyddu, i gychwyn o leiaf, wrth i gofrestru gorfodol gael ei ehangu i grwpiau eraill o weithwyr. Yn ystod y flwyddyn ariannol, cynhaliwyd 156 o ymchwiliadau, ac o'r rheiny caewyd dros eu hanner ar ôl yr ymchwiliad cychwynnol. Cynhaliwyd 6 o wrandawiadau ymddygiad o'u cymharu ag 11 yn y flwyddyn flaenorol. Canfuwyd camymddygiad ym mhob achos, a thynnwyd un cofrestrai oddi ar y Gofrestr a'r pump arall yn cael ceryddon o rhwng chwe mis a

phum mlynedd. Mae gan y Cyngor Gofal garfan o 25 o unigolion – yn weithwyr proffesiynol lleyg a gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol - i wasanaethu ar Bwyllgorau Cofrestru ac Ymddygiad y Cyngor Gofal er mwyn cynnal annibyniaeth y broses benderfynu yn unol ag arfer da.

Rydym yn sefydliad sy'n dysgu, ac rydym wedi bod yn adolygu ein trefniadau cofrestru ac ymddygiad. Y nod yw sicrhau system ddiwastraff a theg, ac yn 2010/11, disgwylir y bydd newidiadau i'r prosesau ymddygiad a chofrestru, a fydd yn cynnwys cyflwyno ystod ehangach o sancsiynau posibl i ddelio â chamymddygiad. Bydd y newidiadau arfaethedig i'r rheolau cofrestru yn galluogi swyddogion i dynnu cofrestreion oddi ar y Gofrestr yn sgil methiant i dalu'r ffi gofrestru a/neu i wneud cais am adnewyddu cofrestriad.

Roedd rhaglen waith datblygu'r Cyngor Gofal yn canolbwyntio, yn unol â Chynllun Gweithredu'r Gweithlu ar gyfer *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol*, ar weithlu'r dyfodol i gefnogi gofal yn y cartref a model newydd ar gyfer gweithio gyda phlant a theuluoedd.

Cynlluniwyd y prosiect ymchwil Gofal yn y Cartref i ganfod beth sydd ei angen i gryfhau'r gweithlu er mwyn gallu bodloni'r gofynion cynyddol a newidiol o ddarparu gofal yn y cartref yn y dyfodol. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys gwaith ymchwil gyda chomisiynwyr, darparwyr, cynhalwyr a defnyddwyr gwasanaeth ledled Cymru i gael darlun o realiti gofal yn y cartref.

Bydd y canfyddiadau a'r argymhellion o'r astudiaeth yn cael eu cyhoeddi yn 2010/11. Bwriedir wedyn datblygu cynllun gweithredu a fydd yn helpu llunio gweithlu gofal yn y cartref effeithiol ar gyfer y dyfodol.

Yn 2009/10, fe wnaeth y Rhwydwaith Gweithlu Pobl Hŷn ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a sefydlwyd gan y Cyngor Gofal ar ran Llywodraeth y Cynulliad, ddatblygu crynodeb o strategaethau a chynlluniau presennol sy'n effeithio ar y gweithlu. Prif ddiben y ddogfen oedd argymell i Lywodraeth y Cynulliad y blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweithredu er mwyn datblygu strategaeth gweithlu gynhwysfawr i'r rhai sy'n gweithio gyda phobl hŷn mewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd y strategaeth gryno a gyflwynwyd i Lywodraeth y Cynulliad yn llywio diweddaru'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn.

Un o'r negeseuon allweddol gan gyflogwyr ac ymarferwyr fu'r angen am offer datblygu ymarfer ar gyfer ymarferwyr llinell flaen fel bod eu gwaith yn ddiogel, yn gyfoes ac yn canolbwyntio ar bobl bob amser. Datblygodd y Cyngor Gofal gyfres o ddeunyddiau ar gyfer gweithwyr llinell flaen sy'n cynorthwyo pobl hŷn. Roedd y rhain yn cynnwys setiau gwybodaeth, wedi'u cynhyrchu'n benodol ar gais ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl hŷn mewn gofal preswyl a gofal cartref. Fe'u cynlluniwyd i helpu ymarferwyr adeiladu ar eu gwybodaeth a'u sgiliau sylfaenol, fel y byddent yn hyderus yn cyflwyno'r gwasanaeth gorau posibl i bobl hŷn â dementia a'r rheiny sy'n tynnu at ddiwedd eu hoes. Mae'r deunyddiau wedi cael derbyniad da gan y sector, ac mae ymarferwyr wedi'u disgrifio fel rhai defnyddiol eithriadol o ran datblygu staff a gwella ymarfer. Tanlinellodd yr adborth hwn bwysigrwydd darparu offer ac adnoddau hyfforddi i gefnogi ymarferwyr llinell flaen ym mhob lleoliad, fel y gallant barhau i ddatblygu a chyflwyno gofal a chymorth o ansawdd uchel.

I gyd-fynd â'r setiau gwybodaeth ar gyfer dementia a gofal diwedd oes, cynhyrchodd y Cyngor Gofal CD o straeon wedi'u recordio gan gynhalwyr. Roedd y rhain yn adrodd yn uniongyrchol am y realiti sy'n wynebu cynhalwyr pobl sy'n dioddef o ddementia neu'r rheiny sy'n tynnu at ddiwedd eu hoes. Tynnodd y chwe stori sylw at feysydd dysgu a phwyntiau trafod i ymarferwyr eu hystyried wrth ddarparu gofal. Bwriad y straeon hyn yw cynorthwyo dysgwyr yn eu dealltwriaeth o ddementia ac i gynhalwyr teulu weld rhai eraill yn rhannu'r un profiad. Bydd y defnydd o'r CD yn cael ei werthuso yn 2010/11.

Cafodd adroddiad ar arfer da wrth weithio gyda phobl hŷn â dementia ei gyhoeddi gan y Cyngor Gofal hefyd yn ystod y flwyddyn. Roedd y prosiect yn gofyn am ddatblygu cyfeiriadur o sefydliadau ac adnoddau dementia ledled y DU. Bydd hwn yn cael ei ddatblygu yn 2010/11 yn arweiniad hawdd ei ddarllen i ymarferwyr.

Rhoddwyd ffocws sylweddol ar y gweithlu plant a'r blynyddoedd cynnar yn 2009/10. Rhannwyd yr adroddiad ar addysgu gofal plant yn y radd gwaith cymdeithasol gyda sefydliadau addysg uwch (SAUau) er mwyn cynorthwyo â'u cyflwyno, a datblygwyd llyfryddiaethau i sicrhau gallu manteisio ar gyhoeddiadau diweddar. Bydd gwaith ar achredu'r rhaglen ddysgu ar gyfer staff y timau Gwasanaethau Teulu Integredig yn cael ei gwblhau erbyn yr hydref. Daw'r adroddiad wedi'i ddiweddaru ar bennu cwmpas a mapio'r gweithlu i'r casgliad bod y gwaith wedi gwella eglurder ynglŷn â rolau swyddi trwy gynhyrchu rhestr o gymwysterau cymeradwy ym maes y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Cafodd y cyhoeddiad *Choosing Well* i helpu cyflogwyr recriwtio staff o safon yng ngwasanaethau'r blynyddoedd cynnar ei ailysgrifennu a'i gyhoeddi dan y teitl *Recruiting Well*. Mae'r canllaw yn rhoi gwybodaeth ddiweddar am sut i gynllunio ar gyfer recriwtio a chadw, ac mae'n cynnwys y gofynion cyfreithiol newydd ar gyfer gweithio gyda phlant a'r blynyddoedd cynnar. Mae'n fodel da o'r modd y gall cyflogwyr gynnwys plant a phobl ifanc yn y broses gyfweld, er mwyn helpu gwella gwasanaethau. Cynhyrchwyd cyhoeddiad ategol hefyd, o'r enw *Inducting Well*. Mae hwn wedi'i gynllunio'n i helpu darparwyr gofal plant gyflwyno rhaglenni ymsefydlu effeithiol i recriwtiaid newydd. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn graidd i'r cyhoeddiad hwn, ac mae'n cysylltu'r egwyddorion a'r gwerthoedd, a'r saith nod craidd â phroses ymsefydlu gychwynnol gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant. Mae'r ddau gyhoeddiad hwn wedi cael derbyniad eithriadol o dda gan y sector.

Fel Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer gwaith cymdeithasol yng Nghymru, yn 2008/09 datblygodd y Cyngor Gofal Strategaeth Ddysgu Cymwysterau'r Sector, gan nodi'r cymwysterau blaenoriaeth sydd eu hangen ar ymarferwyr gofal cymdeithasol. Yn ystod 2009/10, dechreuodd gwaith ar gynhyrchu'r cymwysterau hyn fel rhan o ddiwygio cymwysterau galwedigaethol a datblygu'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau newydd. Ymhlith y rheiny a gwblhawyd oedd y diplomâu iechyd a gofal cymdeithasol, lefelau 2, 3 a 5, a fydd yn disodli CGCau. Gwnaed cynnydd hefyd yn y gwaith ar unedau arbenigol ar gyfer dementia, gwasanaethau synhwyraidd, anableddau corfforol a gweithgareddau a fydd yn dod o fewn Diplomâu newydd y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau.

Datblygodd y Cyngor Gofal y CGC cyntaf mewn gofal cymdeithasol a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer gweithwyr yng Nghymru. Datblygwyd y CGC mewn Comisiynu, Caffael a Chontractio ar gyfer Gofal Cymdeithasol gan ddefnyddio Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, mewn ymateb uniongyrchol i anghenion y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru ac i ategu Arweiniad Comisiynu'r Cynulliad. Y Brifysgol Agored yw'r corff dyfarnu. Bydd y cymhwyster yn cael ei gynnig ar lefelau 3, 4 a 5 a bydd gan fyfyrwyr dair blynedd i'w gwblhau. Yn ystod y flwyddyn, datblygodd y Cyngor Gofal gymhwyster newydd mewn *Cymdeithas, Iechyd a Datblygiad* ar gyfer Bagloriaeth Cymru. Fe'i datblygwyd mewn partneriaeth â Sgiliau Iechyd a sefydliadau eraill, ac mae wedi'i gynllunio fel rhaglen ddysgu gyflawn, yn cwmpasu sgiliau mewn cyfathrebu, cymhwyso rhif a TGCh, yn ogystal â phrofiad gwaith, menter gymdeithasol a chymunedol a chymwysterau academaidd. Mae'r Cyngor Gofal wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad a sefydliadau dyfarnu i gael y cymwysterau hyn yn barod ar gyfer mis Medi 2010. Bydd y sector gofal cymdeithasol yn elwa o gymwysterau modern a fydd yn seiliedig ar gredydau ac yn cefnogi dysgu proffesiynol parhaus.

Fel Cyngor Sgiliau Sector, datblygu ac adolygu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yw un o gyfrifoldebau allweddol y Cyngor Gofal. Yn 2009/10, cynhyrchodd y Cyngor Gofal ddau CD-Rom Chwiliwr [Navigator] newydd ar gyfer y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, i helpu

pobl ddod o hyd i'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol sydd fwyaf perthnasol iddynt trwy eu grwpio yn ôl rolau swyddi. Maent yn ymdrin â'r meysydd *Comisiynu, Caffael a Chontractio* ac *Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar gyfer Gofal Cymdeithasol.* Mae'r Chwilwyr Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer cyflogwyr, y rhai sydd â diddordeb mewn defnyddio'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol i ddatblygu rolau swydd a gwasanaeth, a phobl sy'n ymgymryd â chymwysterau. Gobeithir y bydd y Chwilwyr yn annog defnyddio'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol fel sail ar gyfer creu a nodi meysydd datblygiad proffesiynol, creu ac adolygu manylebau gwasanaeth a meincnodi.

Mae'r radd gwaith cymdeithasol yn parhau i chwarae rhan hanfodol i ddarparu gweithwyr cymdeithasol o galibr uchel i Gymru. Dangosodd y data diweddaraf fod 320 o fyfyrwyr wedi cofrestru ar gyrsiau'r radd gwaith cymdeithasol yn 2008/09. Graddiodd cyfanswm o 223 o weithwyr cymdeithasol yn 2008/09, a 39 ohonynt ar lefel Meistr.

Mae'r Cyngor Gofal wedi arwain ar ystod o fentrau i sicrhau bod hyfforddiant gwaith cymdeithasol yn parhau i ddiwallu anghenion y sector ar lefel gymhwyso a lefel ôl-gymhwyso ledled Cymru.

Roedd canlyniadau o astudiaeth hirdymor i ddilyniant gyrfa gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso yn y DU yn awgrymu bod bron yr holl raddedigion wedi mynd ymlaen i ymarfer yn y sector yng Nghymru. Roedd y canfyddiadau o'r arolwg yn chwalu ofnau cynnar ynghylch nifer fawr o fyfyrwyr yn cael eu hyfforddi ac yn gadael y brifysgol heb swydd i fynd iddi. Canfu'r arolwg hefyd fod graddedigion sy'n ymarfer ers 2007 yn ymroddedig i'r proffesiwn, ac mae hyd yn oed y rheiny sydd â chynlluniau i adael eu swydd bresennol yn bwriadu aros ym maes gwaith cymdeithasol.

Sefydlwyd model Cymru gyfan i gasglu data ar gyfer hyfforddiant gwaith cymdeithasol, a chyhoeddwyd data sylfaenol. Bydd model y Set Data Gofynnol Genedlaethol yn galluogi cyflogwyr, Llywodraeth y Cynulliad a'r Cyngor Gofal i gynllunio hyfforddiant gwaith cymdeithasol yn y dyfodol yn fwy effeithiol, a chael gwell gwybodaeth am recriwtio, cadw a lefelau swyddi gweigion ar draws y sector. Dangosodd data bod swyddi gweigion yng Nghymru yn lleihau mewn llawer o feysydd gwaith, ond mae rhai yn wynebu heriau parhaus o ran recriwtio a chadw staff â chymwysterau addas.

Yn ystod y flwyddyn, cynigiodd y Cyngor Gofal fodel ar gyfer llwybr gyrfa cenedlaethol i weithwyr cymdeithasol yng Nghymru. Y nod yw cryfhau cadw gweithwyr cymdeithasol profiadol mewn rolau llinell flaen a sicrhau bod ganddynt y wybodaeth, y sgiliau a'r cyfle i fanteisio ar ddysgu a chymorth, fel y gallant barhau i ymarfer a rhoi cymorth proffesiynol i rai eraill sydd ar gyfnodau gwahanol eu gyrfaoedd.

Cadarnhawyd cefnogaeth i'r dull newydd hwn mewn trafodaethau gydag ystod o sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad, yn ogystal â gweithwyr cymdeithasol, defnyddwyr gwasanaeth a chynhalwyr. Bydd y gwaith hwn yn llywio Grŵp Gorchwyl Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Gwaith Cymdeithasol Llywodraeth y Cynulliad, sy'n gyfrifol am adolygiad cynhwysfawr o waith llinell flaen yng Nghymru.

Mae'r Gwobrau Gofal Cymdeithasol wedi dod yn gyfrwng pwysig i nodi, dathlu ac arddangos arfer gorau o ran datblygu'r gweithlu er mwyn gwella gwasanaethau. Y llynedd, cynhaliwyd seremoni Acoladau nodedig yn Neuadd y Ddinas Caerdydd, a chyflwynwyd gwobrau gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas AC. Cyflwynwyd gwobrau mewn saith categori o flaen cynulleidfa o dros 200 o bob cwr o'r sector gofal cymdeithasol. Dilynwyd y seremoni gan gyfres o ddigwyddiadau rhannu, a fynychwyd gan dros 150 o bobl, gyda chyfleoedd i ddysgu gan yr enillwyr.

Mae'r Cyngor Gofal yn ymdrechu i fod yn fudiad rhagorol, sy'n cyflawni canlyniadau, llywodraethu da ac sy'n gweithredu yn ôl y safonau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd uchaf. Fel y rhan fwyaf o sefydliadau'r sector cyhoeddus yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae'r Cyngor Gofal yn gweithredu yng nghyd-destun llai o gyllid a fydd yn mynd yn fwyfwy heriol dros y blynyddoedd i ddod. Rhoddwyd ffocws o'r newydd ar sicrhau bod y fframwaith perfformiad ar gyfer y sefydliad yn canolbwyntio ar ddefnyddio adnoddau ar yr amcanion blaenoriaeth a all wneud gwahaniaethu go iawn i safon y gweithlu gwaith cymdeithasol yng Nghymru, gyda golwg ar wella canlyniadau a phrofiad i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Gweithiwn mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau, gan gynnwys yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd a'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol. Rydym hefyd yn ariannu'r Partneriaethau Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol sy'n galluogi sefydliadau statudol, preifat a gwirfoddol, yn ogystal â darparwyr dysgu, i weithio gyda'i gilydd i nodi blaenoriaethau'r gweithlu a'u gyrru yn eu blaen. Yn ogystal, gweithiwn mewn partneriaeth â chynghorau rheoleiddio'r DU yn y tair gwlad a gyda sefydliad eraill yn Lloegr sy'n gyfrifol am ddatblygu yn unol â fframweithiau rheoleiddio. Mae hyn yn sicrhau bod gennym systemau cadarn ar gyfer diogelu'r cyhoedd, rhannu gwybodaeth ymchwil a gwybodaeth am y farchnad lafur er mwyn llywio cynllunio yn y dyfodol, a rhannu sgiliau ac arbenigedd ar lefel strategol.

Rydym yn cyfranogi'n weithredol mewn llawer o'r mentrau a nodwyd yn y rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesedd a sefydlwyd gan Brif Weinidog Cymru i gyflwyno gwell gwasanaethau cyhoeddus mewn hinsawdd economaidd anodd. Mae ein gwasanaethau galluogi yn defnyddio contractau fframwaith Gwerth Cymru a byddwn yn parhau â'r ymagwedd dargedig hon, gan ddefnyddio adnoddau er y budd pennaf.

Y Gwariant Net ar gyfer y Cyngor Gofal am y flwyddyn oedd £10,316,000(£10,034,000 yn 2008-09). Ar ôl cyfrif am y Cymorth Grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o £10,354,000(£10,086,000 yn 2008-09), y trosglwyddiad o £120,000 o'r Gronfa Bensiwn (trosglwyddiad o £50,000 i'r Gronfa Bensiwn yn 2008-09) ac addasiad ar gyfer Credyd Cyfalaf o £58,000 (£19,000 yn 2008-09), y gweddill yn y gronfa Gyffredinol oedd £455,000 (£355,000 yn 2008-09). Cyfanswm yr incwm a ddeilliodd o ffioedd cofrestru oedd £201,000 (£196,000 yn 2008-09) a chyfanswm yr asedau anghyfredol a gafwyd oedd £202,000 (£36,000 yn 2008-09).

Darparom grantiau i sefydliadau addysg uwch ac i awdurdodau lleol ar gyfer hyfforddiant gwaith cymdeithasol a materion cysylltiedig. Hefyd, gwnaed cyfanswm o £3,297,000 (£3,132,000 yn 2008-09) o daliadau i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol drwy'r Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol sy'n cynnwys cyllid ar gyfer bwrsarïau, ffioedd dysgu a chostau teithio i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â hyfforddiant israddedig ac ôl-raddedig (DipSW).

Derbyniwyd tystysgrif archwilio lân ar gyfer Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y llynedd, am yr wythfed flwyddyn yn olynol. Bydd gwaith ar integreiddio ein fframwaith rheoli perfformiad a datblygu dangosyddion perfformiad allweddol yn parhau yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Rhian Huws Williams
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo

Dyddiad: 22 Gorffennaf 2010

# Adroddiad ar Gyflogau

## 1. Polisi ar Gyflogau

Cymeradwywyd cynllun y Cyngor Gofal ar gyfer trefniadau talu a graddio staff gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2004. Mae'n berthnasol i'r holl aelodau staff fel ei gilydd.

Mae'n cynnwys graddfa gyflog, dilyniant cyflog cynyddol yn ystod blynyddoedd cynnar cyflogaeth, a dyfarniad ar wahân ar sail perfformiad y sefydliad. Mae cynllun datblygu perfformiad unigol ar waith ar gyfer yr holl staff.

Mae'r dyfarniad tâl yn amodol ar drafodaeth â Chyngor y Staff a chymeradwyaeth gan Grŵp Cyflogau'r Cyngor Gofal a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn flynyddol.

Mae'r Grŵp Cyflogau yn cynnwys y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio, ac mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol yn ei fynychu hefyd.

Caiff cyfraddau cyflog blynyddol y Cadeirydd a'r aelodau eu pennu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Caiff cyfraddau aelodau'r panel eu pennu gan y Cyngor Gofal ac maent yn cyd-fynd yn fras â'r cyfraddau a osodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer aelodau Cyngor.

## 2. Cyflog a Hawliau Pensiwn*

* Mae'r adran hon yn destun archwiliad

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am gyflog a buddiannau pensiwn Cadeirydd y Cyngor ac uwch swyddogion ac maent yn destun archwiliad:

### 2(i) Cyflog y Cadeirydd ac Uwch Swyddogion

| | | **2009-10** | | **2008-09** | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Enillwyd yn y flwyddyn** | | **Cyflog** | **Bonws** | **Cyflog** | **Bonws** |
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cadeirydd | Mutale Merrill (hyd Gorffennaf 2009) | 5-10 | 0 | 15-20 | 0 |
| Cadeirydd | Arwel Ellis Owen (o Awst 2009) | 15-20 | 0 | dd/b | dd/b |
| Prif Weithredwr | Rhian Huws Williams | 95-100 | 0-5 | 95-100 | 0-5 |
| Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Safonau Proffesiynol/(Dirprwy Brif Weithredwr) | Gerald Evans | 70-75 | 0-5 | 70-75 | 0-5 |
| Cyfarwyddwr Gweithrediadau ac Adnoddau Corfforaethol | Neil Wicks | 70-75 | 0-5 | 70-75 | 0-5 |
| Cyfarwyddwr Dysgu a Datblygu | Roberta Hayes (o Chwefror 2010) | 5-10 | 0 | dd/b | dd/b |

Mae cyflogau'n cynnwys tâl gros a chodiadau cyflog y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r bonws yn rhan o'r trefniadau talu a graddio ac yn cynnwys Dyfarniad Perfformiad Corfforaethol sy'n daladwy yn deg i bob aelod o staff cymwys. Mae'r dyfarniad yn ymwneud â pherfformiad y sefydliad yn y flwyddyn flaenorol, felly, mae bonysau a dalwyd yn 2009-10 yn seiliedig ar berfformiad 2008-09, ac mae bonysau a dalwyd yn 2008-09 yn seiliedig ar berfformiad 2007-08.

Nid yw pob aelod o staff sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau yn cael eu contractio am gyfnod sefydlog.

Ni dderbyniodd unrhyw aelodau staff sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau fuddiannau mewn da gan y Cyngor Gofal, ac ni chynhelir cynllun ar gyfer darparu cerbydau modur i staff nac aelodau.

### 2(ii) Buddiannau Pensiwn

| | **Cyfanswm pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2010**<br>**£'000** | **Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar 31 Mawrth 2010**<br>**£'000** | **Cyfanswm cyfandaliad cronedig ar 31 Mawrth 2010**<br>**£'000** | **Cynnydd gwirioneddol mewn cyfandaliad ar 31 Mawrth 2010**<br>**£'000** | **CETV ar 31 Mawrth 2010**<br>**£'000** | **CETV ar 31 Mawrth 2009**<br>**£'000** | **Cynnydd gwirioneddol mewn CETV yn 2009-10**<br>**£000** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cadeirydd**<br>Mutale Merrill | dd/b | dd/b | dd/b | dd/b | dd/b | dd/b | dd/b |
| **Cadeirydd**<br>Arwel Ellis Owen | dd/b | dd/b | dd/b | dd/b | dd/b | dd/b | dd/b |
| **Prif Weithredwr**<br>Rhian Huws Williams | 35 – 40 | 0.0 - 2.5 | 105 – 110 | -5.0 – -2.5 | 740 | 663 | 48 |
| **Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Safonau Proffesiynol/(Dirprwy Brif Weithredwr)**<br>Gerald Evans | 5 – 10 | 0.0 – 2.5 | 10 – 15 | -2.5 – 0.0 | 122 | 97 | 21 |
| **Cyfarwyddwr Gweithrediadau ac Adnoddau Corfforaethol**<br>Neil Wicks | 15 – 20 | 0.0 – 2.5 | 45 – 50 | -2.5 – 0.0 | 286 | 253 | 22 |
| **Cyfarwyddwr Datblygu'r Gweithlu**<br>Roberta Hayes | 0 – 5 | 0.0 – 2.5 | 0 | 0.0 | 2 | 0 | 2 |

Mae'r Prif Weithredwr yn aelod cyffredin o gynllun pensiwn y Cyngor Gofal. Nid yw'r Cadeirydd yn cymryd rhan yn y cynllun pensiwn.

### Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Hwn yw'r gwerth cyfalafol a aseswyd gan actwari o fuddiannau cynllun pensiwn sydd wedi'u cronni gan aelod ar adeg benodol mewn amser. Buddiannau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun yw'r buddiannau y pennwyd eu gwerth. Dyma daliad a wneir gan gynllun pensiwn, neu drefniant i sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun pensiwn arall, neu drefniant lle bo aelod yn ymadael â chynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau pensiwn y maent wedi'u cronni yn eu cynllun blaenorol.

Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w haelodaeth gyfan o'r cynllun, nid dim ond ar gyfer eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu yn berthnasol iddo. Mae ffigurau'r CETV a manylion pensiwn eraill yn cynnwys gwerth unrhyw bensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad i'r aelod yn prynu blynyddoedd ychwanegol ar eu traul eu hunain. Caiff CETV eu cyfrifo yn ôl y canllawiau a'r fframwaith sydd wedi'u gosod gan y Sefydliad a'r Gyfadran Actiwarïaid.

### Y cynnydd gwirioneddol yng ngwerth y CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV sy'n cael ei ariannu i bob diben gan y cyflogwr. Mae'n ystyried cynnydd mewn pensiwn cronedig yn sgil chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai, gan gynnwys unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall, ac mae'n defnyddio ffactorau prisiant y farchnad gyffredin ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

Rhian Huws Williams
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo

Dyddiad: 22 Gorffennaf 2010

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor Gofal a'r Prif Weithredwr

O dan Atodlen 1, Adran 18(2) Deddf Safonau Gofal 2000, mae'n ofynnol i'r Cyngor Gofal baratoi cyfriflen ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y gyfryw ffurf ac ar sail cyfarwyddyd Gweinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth Trysorlys Ei Mawrhydi.

Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o amgylchiadau'r Cyngor Gofal ar ddiwedd y cyfnod, ac o'i incwm a'i wariant a'i lifoedd arian ar gyfer y cyfnod.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol bod y Cyngor Gofal yn cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, ac yn benodol:

- dilyn y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifo addas yn gyson;
- ffurfio barnau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifo cymwys fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei fod yn amhriodol cymryd yn ganiataol y bydd y Cyngor Gofal yn parhau i weithredu.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifo ar ran Gweinidogion Cymru wedi penodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifo ar gyfer y Cyngor Gofal. Nodir ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys priodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo yn atebol amdanynt, cadw cofnodion cywir a diogelu asedau'r Cyngor Gofal, yn Rheoli Arian Cyhoeddus.

Rhian Huws Williams
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo

Dyddiad: 22 Gorffennaf 2010

# Datganiad ar Reolaeth Fewnol

### Cwmpas Cyfrifoldeb

Mae gennyf i, fel Swyddog Cyfrifo, gyfrifoldeb dros gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor Gofal, tra'n diogelu'r cronfeydd a'r asedau cyhoeddus yr wyf i'n gyfrifol amdanynt yn bersonol, yn unol â'r cyfrifoldebau a bennwyd i mi yn Rheoli Arian Cyhoeddus.

Rwyf yn cydnabod fy nghyfrifoldeb am sicrhau bod system effeithiol o reolaeth fewnol yn cael ei chynnal a'i gweithredu ac y caiff cyfathrebu effeithiol ag Is-adran Noddi'r Cyngor Gofal yn Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gynnal ar y materion hyn. Yn ystod 2009/10 cynhaliwyd cyfarfodydd monitro rheolaidd â'n His-adran Noddi a chyfarfodydd atebolrwydd blynyddol gyda'r Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn y drefn honno, a mynychwyd y ddau ohonynt gan y Cadeirydd a'r Swyddog Cyfrifo.

### Diben y system rheolaeth fewnol

Cynlluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Felly, ni all ond rhoi sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd ac nid sicrwydd absoliwt.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni nodau ac amcanion y Cyngor Gofal, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith petaent yn cael eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd. Mae system barhaus o reolaeth fewnol wedi bod ar waith yn y Cyngor Gofal ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi.

### Y gallu i ddelio â risgiau

Gwneir y penderfyniadau ariannol a gweithredol allweddol o ddydd i ddydd ar gyfer y Cyngor Gofal naill ai gennyf i, gan y Tîm Rheoli Gweithredol, neu, gyda fy nghytundeb, gan aelodau unigol o'r Tîm Rheoli Gweithredol neu staff sydd ag awdurdod dirprwyedig.

Mae system rheolaeth fewnol y Cyngor Gofal wedi'i seilio ar fframwaith o wybodaeth reoli, rheoliadau ariannol a gweithdrefnau gweinyddol, gan gynnwys gwahanu dyletswyddau. Yn benodol, mae'n cynnwys:

- cyfarfodydd Cyngor a Chyfarfodydd Pwyllgor rheolaidd i adolygu a chytuno ar gynllunio a chyfeiriad strategol ac i adolygu a monitro perfformiad;
- cyfarfodydd rheolaidd o'r Tîm Rheoli Gweithredol i reoli ac adolygu perfformiad y sefydliad yn ôl amcanion, targedau a chyllidebau yn y Cynllun Gweithredu;
- cyfarfodydd o'r Tîm Rheoli Gweithredol yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i nodi a monitro risgiau;
- mae Rheolwr Risg yn gyfrifol am bob prif faes gwaith, ac am ddarparu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o risg sy'n briodol i'r awdurdod ac i ddyletswyddau staff;
- adroddiadau mynych i reolwyr ar feysydd gwariant allweddol gan gynnwys grantiau i gefnogi hyfforddiant gwaith cymdeithasol a gwasanaethau sydd ar gontract allanol.

## Y Fframwaith Rheoli Risg

Mae Rheoli Risg yn ystyriaeth allweddol yng ngweithgareddau'r Cyngor Gofal, ac fe'i tanategir gan y System Rheoli Risg sy'n darparu'r prif sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifo ar effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol.

Mae System Rheoli Risg y Cyngor Gofal yn cynnwys cofrestr risg adrannol ar gyfer pob un o'i adrannau (Gwasanaethau Corfforaethol, Datblygu'r Gweithlu a Rheoleiddio'r Gweithlu) a hefyd cofrestr Risg Weithredol. Mae'r risgiau Adrannol yn risgiau lefel is a reolir ar lefel adrannol, tra bod y risgiau Gweithredol yn risgiau a allai danseilio gallu'r sefydliad i fodloni ei amcanion ac a reolir gan y Tîm Rheoli Gweithredol.

Mae dau ddull o nodi risgiau yn y Cyngor Gofal. Mae'r broses nodi risg gychwynnol yn cynnwys nodi risgiau ar gyfer prosiect newydd neu weithgarwch newydd yn y sefydliad, ac yn ychwanegol mae proses nodi risg Barhaus, sy'n golygu nodi risgiau newydd nad ydynt wedi codi o'r blaen neu newidiadau i risgiau presennol.

Rhoddir sgôr i'r holl risgiau yn unol â matrics sgorio risg sy'n seiliedig ar asesu tebygolrwydd y risg ac effaith y risg. Mae cyfarwyddwyr yn gyfrifol am sgorio'r risg, ac o ganlyniad am werthuso a yw risg yn risg adrannol neu'n risg weithredol. Un mater a gaiff ystyriaeth wrth ystyried risg yw nodi 'archwaeth risg' y sefydliad, sef goddefgarwch y Cyngor Gofal o ran dod i gysylltiad â risg. Bydd yr archwaeth risg yn penderfynu a yw'r risg yn un a fydd yn cael ei goddef, ei therfynu, ei throsglwyddo neu'i thrin.

Caiff yr holl risgiau a nodir yn risgiau Sefydliadol gan y Cyfarwyddwr perthnasol eu gwerthuso gan y Tîm Rheoli Gweithredol o ran a yw'r asesiadau cychwynnol o'r risgiau yn gywir, a phenderfynu wedyn a yw'r risgiau a nodwyd yn rhai digon sylweddol i'w cynnwys yn y Gofrestr Risgiau Sefydliadol. Yn ogystal, os na chaiff y risg ei lliniaru, bydd y Tîm Rheoli Gweithredol yn edrych hefyd ar y camau gweithredu a argymhellwyd. Cynhelir y broses hon dair gwaith y flwyddyn gyda'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn adolygu ac yn cadarnhau'r Gofrestr Risgiau Sefydliadol.

Nid ystyrir y broses rheoli risg yn ymarferiad 'un tro' yn unig, ac mae'r rheolwyr a'r staff yn ystyried yr holl newidiadau a datblygiadau i arferion gweithio o ran risg, ac yn gweithredu'n unol bob amser. Mae'r broses rheoli risg wedi'i hymgorffori'n bellach yn y Cyngor Gofal gyda dyrannu perchnogaeth o risgiau i reolwyr ar lefel adrannol, ac o ganlyniad rheoli'r risg trwy ddwyn yn eu blaen unrhyw gamau gweithredu gofynnol i leihau'r risg.

Mae elfennau Rheoli Risg eraill fel a ganlyn:-

- sicrhau bod prosesau cynllunio a phenderfynu corfforaethol yn ymgorffori egwyddorion rheoli risg;
- Pwyllgor Archwilio sy'n cael ac yn ystyried adroddiadau archwilio mewnol gan gynnwys rheoli risg;
- Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog sy'n pennu cyfrifoldebau aelodau'r Cyngor a swyddogion am faterion ariannol;
- adroddiadau rheolaidd gan yr archwilwyr mewnol, gan gynnwys eu barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella;
- systemau ar gyfer rheolaeth ariannol ar wariant ac adrodd am wariant gwirioneddol yn erbyn cyllideb;
- ymagwedd gref tuag at Lywodraethu a rheolaeth fewnol, gan weithio gydag Archwilio Mewnol i adolygu a chryfhau trefniadau;

- arferion mewnol ar gyfer delio â chyngor gan Drysorlys Ei Mawrhydi a Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys hwnnw sydd wedi'i gynnwys mewn llythyron at y Prif Swyddog Gweithredol a llythyron Annwyl Swyddog Cyfrifo; ac
- adroddiad blynyddol gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol.

Mae gan y Cyngor Gofal weithdrefnau diogelwch gwybodaeth ar waith i sicrhau cyfrinachedd, integredd ac argaeledd y wybodaeth y mae'n ei dal a'i phrosesu.

- mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am awdurdodi a rheoli'r holl gyfryngau symudadwy;
- mae Polisi Diogelwch Gwybodaeth ar waith;
- mae Polisi Dosbarthiad Gwybodaeth ar waith;
- mae arweiniad a pholisi ar drafod gwybodaeth wedi cael eu dosbarthu i'r holl staff;
- rydym yn parhau i gynnal ac adrodd ar ein cydymffurfiaeth statudol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data;
- mae'r Cyngor Gofal yn dilyn Cod Ymarfer yr Arglwydd Ganghellor i gynnal rheolaeth systematig ar greu, derbyn, cynnal, storio, defnyddio a gwaredu (dinistrio) holl gofnodion y Cyngor Gofal;
- mae'r Safon Rheoli Diogelwch ISO27001 wedi cael ei hachredu i Wasanaethau Corfforaethol;
- ymgymerwyd ag asesiad risg Diogelwch Gwybodaeth; ac
- mae'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol yn derbyn adroddiadau ac yn adolygu trefniadau trafod data.

**Adolygiad Effeithiolrwydd**

Mae gennyf i gyfrifoldeb, fel Swyddog Cyfrifo, am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol, yr uwch reolwyr yn y Cyngor Gofal, sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, ac argymhellion archwilwyr allanol sydd wedi'u cynnwys yn eu llythyron rheoli ac adroddiadau eraill.

Mae barn yr Archwilwyr Mewnol yn datgan eu bod yn gallu rhoi lefel uchel o sicrwydd dros ein rheolaeth fewnol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi fy nghynghori ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad, ac mae cynllun ar waith i sicrhau gwelliant parhaus y system.

Credaf y bu gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010, sy'n cydymffurfio ag arweiniad Trysorlys Ei Mawrhydi, er bod y system yn destun diweddaru rheolaidd.

Nid yw canlyniadau fy adolygiad wedi awgrymu unrhyw broblemau arwyddocaol o ran rheolaeth fewnol.

Rhian Huws Williams
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo

Dyddiad: 22 Gorffennaf 2010

# Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Gofal Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 o dan baragraff 18(4) o Atodlen 1 Deddf Safonau Gofal 2000. Mae'r rhain yn cynnwys y Cyfrif Gwariant Net, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llifoedd Arian, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrififo a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gyflogau y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

### Priod gyfrifoldebau'r Cyngor Gofal Cymru, y Prif Weithredwr a'r archwilydd

Mae'r Prif Weithredwr, yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyfrifo, yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, yr Adroddiad ar Gyflogau, a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a waned o dan y Deddf honno ac ar gyfer sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.Nodir y cyfrifoldebau hyn yn y Dataganiad o Gyfrifoldebaur'r Cyngor Gofal Cymru a'r Prif Weithredwr.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau a sydd i'w harchwilio yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol, ac â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon).

Byddaf yn rhoi fy marn ar b'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan y Ddeddf honno. Nodaf yn y marn I,a yw'r wybodaeth sy'n cynnwys Adroddiad y Prif Weithredwr, y Sylwebaeth Reoli a'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol, yn gyson â'r datganiadau ariannol. Nodad hefyd pu'n a yw'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymhob ffordd berthnasol a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Byddaf hefyd yn eich hysbysu os wyf o'r farn nad yw Cyngor Gofal Cymru wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad neu os nad yw'r wybodaeth a nodwyd gan Drysorlys EM o ran cydnabyddiaeth a thrafodion eraill wedi'i datgelu.

Adolygaf a yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol yn adlerwyrchu cydymffurfiaeth Cyngor Gofal Cymru a chanllawiau Trysorlys EM, a nodaf os nad yw'n adlewyrchu hyn. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried a yw'r datganiad hwn yn cwmpasu'r holl risgau a rheolaethau, nac i lunio barn effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol Cyngor Gofal Cymru na'i weithdrefnau risg a rheoli.

Rwyf yn darllen y wybodaeth arall a geir yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Mae'r wybodaeth arall hon yn cynnwys Adroddiad Y Prif Weithredwr, y Sylwebaeth Reoli a'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau nas archwiliwyd. Rwyf yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

## Sail y farn archwilio

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae fy archwiliad yn cynnwys ystyried, ar sail prawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau sydd i'w harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan Gyngor Gofal Cymru a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, a ph'un ai'r polisïau cyfrifyddu sydd fwyaf priodol i amgylchiadau Cyngor Gofal Cymru ac a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau a oedd yn angenrheidiol, yn fy marn I, er mwyn rhoi tystiolaeth ddiognol i mi allu rhoi sicrwydd rhesymol nad oes camddatgnaniad perthansol yn y datganiadau cyfriddyddu a'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau sydd i'w harchwilio, boed hynny drwy dwyll neu wall a bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymhob ffordd berthansol a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredionol y modd y cyflwynwyd gwybodaeth yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau sydd i'w harchwilio.

## Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg, yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000 a'r cyfarwyddiadau a wnaed dan y Ddeddf honno gan Weinidogion Cymru, o sefyllfa yng Nghyngor Gofal Cymru ar 31 Mawrth 2010 ac o'i Wariant Net, Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;

- mae'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau a fydd yn cael ei harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan y Ddeddf honno; ac

- mae'r gwybodaeth sy'n cynnwys Adroddiad y Prif Weithredwr, y Sylwebaeth Reoli a'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau nas archwiliwyd, a rhoddir yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i,ymhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gillian Body**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**Swyddfa Archwilio Cymru**

**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

**Dyddiad: 10 Awst 2010**

# Cyfrif Gwariant Net

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010

| | Nodyn | 2009-10<br>£000 | 2008-09<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Costau Staff | 5(i) | 3,124 | 2,721 |
| Gwariant ar raglenni | | | |
| Cefnogi hyfforddiant | 6(i) | 4,878 | 4,857 |
| Gwariant heb fod yn ymwneud â'r rhaglen grantiau | 6(ii) | 1,162 | 1,364 |
| Costau gweinyddol | 7 | 1,428 | 1,325 |
| Dibrisiant | 1(ix) | 103 | 114 |
| Cost Llog Pensiwn | 16 | 140 | - |
| | | 10,835 | 10,381 |
| **Incwm** | | | |
| Incwm o Weithgareddau | | | |
| Incwm Ffïoedd Cofrestru | 1(iii) | 201 | 196 |
| Incwm Arall | | | |
| Cyngor Sgiliau Sector | | 151 | 80 |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru | | 103 | 51 |
| Incwm Amrywiol | | 6 | 1 |
| | | 461 | 328 |
| Gwariant Net | | 10,374 | 10,053 |
| Llog tybiannol ar gyfalaf (Credyd) | 1(vi) | (58) | (19) |
| Llog derbyniadwy | 4(i) | 1 | 11 |
| Llog i'w ildio i Gynulliad Cymru | 4(ii) | (1) | (11) |
| | | | - |
| **Gwariant Net ar ôl cost cyfalaf a llog** | | **10,316** | **10,034** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 25 i 44 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol

## ar 31 Mawrth 2010

| | Nodyn | ar 31 Mawrth 2010 | | ar 31 Mawrth 2009 | | ar 1 Ebrill 2008 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Asedau anghyfredol:** | | | | | | | |
| Eiddo, peiriannau ac offer | 8 | 358 | | 309 | | 387 | |
| Asedau Anniriaethol | 9 | 50 | | - | | - | |
| **Cyfanswm Asedau Anghyfredol** | | | 408 | | 309 | | 387 |
| **Asedau Cyfredol:** | | | | | | | |
| Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 11 | 207 | | 233 | | 303 | |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 12 | 172 | | 82 | | 99 | |
| **Cyfanswm Asedau Cyfredol** | | | 379 | | 315 | | 402 |
| **Cyfanswm asedau** | | | 787 | | 624 | | 789 |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | | | | | | |
| Masnach a symiau eraill sy'n daladwy | 13 | (332) | | (269) | | (417) | |
| **Cyfanswm Rhwymedigaethau Cyfredol** | | | (332) | | (269) | | (417) |
| **Asedau anghyfredol llai net asedau/rhwymedigaethau cyfredol** | | | 455 | | 355 | | 372 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | | | | |
| **Rhwymedigaethau Pensiwn** | 16 | (2,400) | | (1,730) | | (100) | |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | | (2,400) | | (1,730) | | (100) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | | (1,945) | | (1,375) | | 272 |
| **Cronfeydd** | | | | | | | |
| Cronfa Gyffredinol | | | 455 | | 355 | | 372 |
| Cronfa Bensiwn | | | (2,400) | | (1,730) | | (100) |
| **Cyfanswm** | | | (1,945) | | (1,375) | | 272 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 25 i 44 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn
Cafodd y datganiadau ariannol ar dudalennau 21 i 22 eu cymeradwyo gan y Cyngor ar 14 Gorffennaf 2010 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

Rhian Huws Williams
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo

Dyddiad: 22 Gorffennaf 2010

# Datganiad ar Lifoedd Arian

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010

| | Nodyn | 2009-10<br>£000 | 2008-09<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd arian parod o Weithgareddau Gweithredu** | | | |
| Gwariant net ar ôl cost cyfalaf a llog | | (10,316) | (10,034) |
| Addasiad ar gyfer Cost Tâl Cyfalaf | 1(vi) | (58) | (19) |
| Addasiad ar gyfer Dibrisiant | | 103 | 114 |
| Addasiad ar gyfer Costau cyllido Pensiwn (net ) | | 120 | (50) |
| Gostyngiad mewn masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | | 26 | 70 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn masnach a symiau eraill sy'n daladwy | | 63 | (148) |
| (All-lif) arian parod o weithgareddau gweithredu | | (10,062) | (10,067) |
| **Llifoedd arian parod o Weithgareddau Buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau ac offer | 8 | (151) | (36) |
| Prynu asedau anniriaethol | 9 | (51) | - |
| | | (202) | (36) |
| **Llifoedd arian parod o Weithgareddau Cyllido** | | | |
| Cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru (gan gynnwys Cyfalaf) | | 10,354 | 10,086 |
| **Cyllido net** | | 10,354 | 10,086 |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) Net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn y cyfnod** | | 90 | (17) |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod | 12 | 82 | 99 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod | 12 | 172 | 82 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 25 i 44 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad ar Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr

## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010

| | Cronfa Bensiwn £000 | Cronfa Gyffredinol £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2008** | (100) | 420 | 320 |
| Newidiadau yn y Polisi Cyfrifo | - | (48) | (48) |
| **Balans wedi'i Ailddatgan ar 1 Ebrill 2008** | (100) | 372 | 272 |
| **Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr 2008-09** | | | |
| Rhyddhau Cronfeydd i'r Cyfrif Gwariant Net | - | (10,034) | (10,034) |
| (Colled)actiwaraidd | (1,680) | - | (1,680) |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd-Cyfalaf | 50 | (50) | - |
| Addasiad ar gyfer cost dybiannol cyfalaf | - | (19) | (19) |
| **Cyfanswm incwm a thraul cydnabyddedig ar gyfer 2008-09** | (1,630) | (10,103) | (11,733) |
| Cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru | - | 10,086 | 10,086 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2009** | (1,730) | 355 | (1,375) |
| **Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr 2009-10** | | | |
| Rhyddhau Cronfeydd i'r Cyfrif Gwariant Net | - | (10,316) | (10,316) |
| (Colled)actiwaraidd | (550) | - | (550) |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd-Cyfalaf | (120) | 120 | - |
| Addasiad ar gyfer cost dybiannol cyfalaf | - | (58) | (58) |
| **Cyfanswm incwm a thraul cydnabyddedig ar gyfer 2009-10** | (670) | (10,254) | (10,924) |
| Cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru | - | 10,354 | 10,354 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2010** | (2,400) | 455 | (1,945) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 25 i 44 yn llunio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010

### Datganiad o Bolisïau Cyfrifo

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol, yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru gyda chaniatâd Trysorlys Ei Mawrhydi. O ganlyniad, paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth 2009-10 a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae'r polisïau cyfrifo yn y Llawlyfr yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae'r Llawlyfr Adrodd Ariannol yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, dewiswyd y polisi cyfrifo y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau arbennig Cyngor Gofal Cymru at ddiben rhoi barn gywir a theg. Disgrifir isod y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan Gyngor Gofal Cymru. Cawsant eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

### 1(i) Confensiwn Cyfrifo

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol, yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru gyda chaniatâd Trysorlys Ei Mawrhydi. Fe'u paratowyd o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i diwygiwyd.

### 1 (ii) Cyllido

Derbyniodd y Cyngor Gofal arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ariannu ei weithgareddau refeniw a chyfalaf cyffredinol. Mae'r symiau hyn yn cael eu hystyried fel cyllido ac fe'u credydir i'r Gronfa Gyffredinol adeg eu derbyn.

### 1(iii) Incwm Ffïoedd Cofrestru

Mae hwn yn deillio o'r ffïoedd a godir ar gyfer cofrestru ar y Gofrestr Gofal Cymdeithasol. Mae'r Cyngor Gofal yn cydnabod yr incwm yn y flwyddyn y ceir yr incwm ac nid y cyfnod cofrestru.

### 1(iv) Cefnogi hyfforddiant a Grantiau Eraill

Yn ystod 2009-10 mae'r Cyngor Gofal wedi gwneud taliadau o dan y Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol sy'n gynllun cymhelliant i hyfforddi ar gyfer myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gyrsiau hyfforddi gwaith cymdeithasol israddedig ac ôl-raddedig. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys taliadau i fyfyrwyr o fwrsariaeth nas asesir ar sail incwm ac elfen ychwanegol a asesir ar sail incwm ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig. Yn ychwanegol, telir ffioedd hyfforddiant i uchafswm a bennir gan y Cyngor Gofal, a thelir Lwfans Cyfle Dysgu Ymarfer hefyd i bob myfyriwr. Caiff y gwariant hwn ei gydnabod yn y flwyddyn ariannol y caiff ei dalu.

Yn ychwanegol, caiff pob hawliad y Gronfa Cyfle Dysgu Ymarfer a phob hawliad grant eu codi ar y Cyfrif Gwariant Net ar sail hawliadau a dalwyd yn y flwyddyn ariannol.

### 1(v) Symiau masnach sy'n dderbyniadwy ac asedau cyfredol eraill – Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol

Yn ystod 2009-10 gwnaeth nifer fechan o fyfyrwyr ddirwyn eu hyfforddiant i ben yn gynnar, gan beri ad-dalu rhan o'r dyfarniad neu'r cwbl ohono. Cyfanswm yr ad-daliad a oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2010 oedd £16,000 (31 Mawrth 2009 £15,000) ac mae'r swm hwn wedi'i gynnwys yn y Symiau masnach sy'n dderbyniadwy ac asedau cyfredol eraill yn nodyn 11. Polisi'r Cyngor Gofal yw ceisio cael ad-daliad llawn o'r cyllid hwn.

**Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 (parhad)**

### 1(vi) Cost Tâl / Credyd Cyfalaf

Mae tâl/credyd, sy'n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddiwyd gan y Cyngor Gofal yn ystod y cyfnod, wedi'i gynnwys yn y Cyfrif Gwariant Net. Caiff y tâl ei gyfrif yn ôl y gyfradd real a osodwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi o 3.5% (2008-09 - 3.5%) ar werth cyfartalog i'w gario pob ased llai rhwymedigaethau.

Roedd gwerth cyfartalog i'w gario yr asedau yn negyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010 oherwydd y diffyg yn y Cynllun Pensiwn, ac o ganlyniad, rhoddwyd credyd yn y Cyfrif Gwariant Net.

### 1(vii) Eiddo, peiriannau ac offer

Mae eiddo, peiriannau ac offer ag iddynt werth unigol neu grŵp o £1,000 neu fwy wedi cael eu cyfalafu. Mae eiddo, peiriannau ac offer wedi cael eu prisio ar gost hanesyddol ar 31 Mawrth 2010, oherwydd ym marn y Cyngor Gofal, nid yw unrhyw addasiadau ailbrisio yn berthnasol.

### 1(viii) Asedau Anniriaethol

Mae pryniannau meddalwedd ag iddynt werth unigol neu grŵp o £1,000 neu fwy wedi cael eu cyfalafu. Mae meddalwedd wedi cael ei phrisio ar gost hanesyddol ar 31 Mawrth 2010, oherwydd ym marn y Cyngor Gofal, nid yw unrhyw addasiadau ailbrisio yn berthnasol.

### 1(ix) Dibrisiant

Darperir dibrisiant ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddileu cost hanesyddol pob ased ar sail linol dros oes economaidd ddefnyddiol yr ased fel yr amlinellir isod, ac eithrio adnewyddu swyddfeydd, lle caiff costau eu dileu dros y cyfnod sy'n weddill o'r prydlesi swyddfa.

| | |
|---|---|
| Offer Swyddfa | - pum mlynedd; |
| Dodrefn | - deng mlynedd; |
| Technoleg Gwybodaeth | - pedair blynedd; |
| Costau llety | - y cyfnod sy'n weddill o brydlesi llety; |
| Meddalwedd | - pedair blynedd. |

Caiff dibrisiant ei gyfrif yn fisol ac mae'n dechrau yn y mis yn dilyn y mis prynu. Fel y cyfryw, ni fydd pryniannau a wnaed ym mis Mawrth 2010 yn dechrau dibrisio tan flwyddyn ariannol 2010-11. Yr eithriad i'r rheol hon yw costau adnewyddu llety lle cyfrifir y tâl dibrisiant ar sail ddyddiol.

**Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 (parhad)**

### 1(x) Prydlesi

Dosberthir prydlesi yn brydlesi cyllid pan fydd holl risgiau a holl wobrwyon perchnogaeth wedi'u trosglwyddo'n sylweddol i'r prydlesai. Dosberthir pob prydles arall yn brydles weithredu.

Caiff gwariant ar brydlesi eiddo ei godi ar y Cyfrif Gwariant Net ar sail costau a gafwyd yn ystod y flwyddyn. Mae rhenti prydlesi gweithredu offer yn cael eu codi ar y Cyfrif Gwariant Net mewn symiau cyfartal dros dymor y brydles.

### 1(xi) Treth ar Werth

Mae'r Cyngor Gofal yn gorff sydd wedi'i eithrio at ddibenion Treth ar Werth (TAW). Paratowyd y cyfrifon hyn ar y sail bod pob gwariant, gan gynnwys ychwanegiadau at asedau sefydlog diriaethol, yn cynnwys TAW anadferadwy.

### 1(xii) Costau Pensiwn

Mae cyflogeion a chyn gyflogeion yn dod o dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sy'n cael ei weinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sy'n gynllun a ariennir gan gyflogwyr lluosog. Darperir mwy o wybodaeth yn nodyn 16 o'r Cyfrifon hyn lle caiff y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwarïaid eu hamlinellu.

Datgelwyd Costau Pensiwn yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 19 (IAS 19)- Buddiannau Cyflogeion. Mae IAS 19 yn gofyn am ddatgelu gwybodaeth benodol yn ymwneud ag asedau, rhwymedigaethau ac incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â'r Cynllun.

### 2. Mabwysiadu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol [IFRS] am y tro cyntaf

| | Cronfa Bensiwn | Cronfa Gyffredinol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Ecwiti trethdalwyr ar 31 Mawrth 2009 o dan UK GAAP | (1,730) | 402 | (1,328) |
| Addasiadau ar gyfer IAS 19 | - | (47) | (47) |
| Ecwiti trethdalwyr ar 31 Mawrth 09 o dan IFRS | (1,730) | 355 | (1,375) |

| | £000 |
|---|---|
| Gwariant Net ar gyfer 2008-09 o dan GAAP | 10,036 |
| Addasiad ar gyfer IAS 19 | (2) |
| | ----------- |
| Gwariant Net ar gyfer 2008-09 o dan IFRS | 10,034 |

Mae Buddiannau Cyflogeion – Buddiannau tymor byr (IAS 19) yn gofyn bod tâl gwyliau yn cael ei gronni gan gydnabod y buddiannau cyflogeion i'w talu yn gyfnewid am y gwasanaeth hwnnw yn ystod y cyfnod cyfrifyddu. Mae hyn yn arwain at gynnydd o £47,000 mewn Rhwymedigaethau cyfredol ar 31 Mawrth 2009 a gostyngiad o £47,000 yn y Gronfa Gyffredinol. Yn ychwanegol, mae Gwariant Net yn 2008-09 wedi'i leihau hefyd £2,000 o dan IFRS o gymharu â'r ffigur cyfwerth o dan GAAP.

**Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 (parhad)**

### 3. Dadansoddiad o Wariant Net yn ôl Segment

Mae'r Cyfrif Gwariant Net yn adlewyrchu'r segmentau y mae canlyniadau gweithredu'r Cyngor Gofal yn eu hadrodd i'r Tîm Rheoli Gweithredol er mwyn gallu asesu perfformiad yn ôl y segmentau hyn. O ganlyniad, ni roddir unrhyw ddadansoddiad pellach o Wariant Net yn ôl Segment.

| 4. | **Cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru** | **2009-10** | **2008-09** |
|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** |
| Cymorth Grant a gafwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru | | 10,354 | 10,086 |

Fel yr amlinellwyd yn Nodyn 1(ii) mae cyfanswm y grantiau o £10,354k (2008-09 £10,086k) bellach wedi'u credydu i'r Gronfa Gyffredinol adeg eu derbyn.

| **4(i)** | **Incwm na ellir ei gadw** | **2009-10** | **2008-09** |
|---|---|---|---|
| | Llog ar y cyfrif cadw | 1 | 11 |
| | Arall | - | - |
| | **Cyfanswm incwm na ellir ei gadw** | 1 | 11 |

### 4(ii) Cysoni arian parod a gafwyd o incwm na ellir ei gadw â symiau a ad-dalwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru

| | | |
|---|---|---|
| Arian Parod a Gafwyd (incwm yn fwy na throthwy Llywodraeth Cynulliad Cymru) | 1 | 11 |
| Cyfanswm incwm ad-daladwy | 1 | 11 |

Mae gan y Cyngor Gofal rwymedigaeth i ad-dalu llog Llywodraeth Cynulliad Cymru a gafwyd yn ystod y flwyddyn, a'r incwm ffioedd sydd uwchlaw'r targed sef £212,000. Cyfanswm yr incwm ffioedd a gafwyd yn y flwyddyn oedd £201,000 heb unrhyw ad-daliad yn ddyledus (2008-09 £196,000).

**Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 (parhad)**

## 5. Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

### 5 (i) Mae costau staff yn cynnwys:

| | 2009-10 | | | | | 2008-09 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm costau £'000 | Staff parhaol a gyflogir £'000 | Eraill £'000 | Cadeirydd ac Aelodau'r Cyngor £'000 | Aelodau Panel £'000 | Cyfanswm Costau £'000 |
| Cyflogau a thâl | 2,640 | 2,416 | 95 | 97 | 32 | 2,312 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 189 | 187 | - | 2 | - | 165 |
| Costau pensiwn eraill | 300 | 300 | - | - | - | 244 |
| **Is-gyfanswm** | **3,129** | **2,903** | **95** | **99** | **32** | **2,721** |
| Llai adenillion o ran secondiadau allanol | -5 | -5 | - | - | - | - |
| **Cyfanswm costau net** | **3,124** | **2,898** | **95** | **99** | **32** | **2,721** |

Yn unol ag arweiniad, mae costau cyflogaeth yn cynnwys taliadau a wnaed mewn perthynas â staff contract. Costau pensiwn eraill yw costau gwasanaeth (presennol a gorffennol) y cynllun o £300,000, ac mae'n cynnwys cyfraniadau gwirioneddol y Cyflogwr a wnaed o £320,000. Y gwahaniaeth gweddilliol o £20,000 (£50,000 yn 2008-09) yw'r tâl gostyngedig sydd ei angen i ostwng y cyfraniadau gwirioneddol sy'n cael eu talu gyda'r gost gwasanaeth y mae'n ofynnol ei chodi o dan Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IAS 26). Mae'r gostyngiad o £20,000 yn gysylltiedig â'r gost gwasanaeth presennol yn gyfan gwbl.

### 5 (ii) Nifer cyfartalog y bobl a gyflogir

Roedd nifer cyfartalog y bobl cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| Adrannau | 2009-10 Cyfanswm Nifer | 2009-10 Nifer Parhaol | 2009-10 Nifer Eraill | 2008-09 Cyfanswm Nifer |
|---|---|---|---|---|
| Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr | 3 | 3 | - | 3 |
| Rheoleiddio'r Gweithlu | 31 | 31 | - | 27 |
| Datblygu'r Gweithlu | 25 | 24 | 1 | 21 |
| Cyfathrebu | 7 | 6 | 1 | 6 |
| Cymorth Corfforaethol | 21 | 21 | - | 21 |
| **Cyfanswm** | **87** | **85** | **2** | **78** |

**Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 (parhad)**

| | | 2009-10 | 2008-09 |
|---|---|---|---|
| **6** | **Costau Rhaglenni** | | |
| **6(i)** | | **£000** | **£000** |
| | **Cymorth Hyfforddiant a grantiau eraill** | | |
| | Taliadau'r Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol | 3,297 | 3,132 |
| | Cyllid Cyfle Dysgu Ymarfer | 1,354 | 1,390 |
| | | 4,651 | 4,522 |
| | **Grantiau Eraill** | | |
| | Partneriaethau Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol | 140 | 140 |
| | Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth/Cynhalwyr â Hyfforddiant Gwaith Cymdeithasol | 64 | 71 |
| | Consortiwm Ôl-gymhwyso Gwaith Cymdeithasol | 23 | 124 |
| | | 4,878 | 4,857 |

## Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol

Mae'r Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol yn gynllun cymhelliant i hyfforddi ar gyfer myfyrwyr sydd wedi ymrestru ar gyrsiau hyfforddiant gwaith cymdeithasol israddedig ac ôl-raddedig.

Mae'r Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol yn rhoi bwrsariaeth nad yw'n cael ei hasesu yn ôl incwm, i fyfyrwyr, ac elfen ychwanegol wedi'i hasesu yn ôl incwm i fyfyrwyr ôl-raddedig. Mae'r ffïoedd dysgu yn cael eu talu yn ôl uchafswm a osodir gan y Cyngor Gofal ac mae Lwfans Cyfle Dysgu Ymarfer hefyd yn cael ei dalu i bob myfyriwr.

## Partneriaethau Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol

Defnyddir y cyllid hwn i ddarparu grant i gefnogi'r pedair partneriaeth gofal cymdeithasol ranbarthol yng Nghymru. Mae'r Partneriaethau hyn yn cynnwys cynrychiolwyr cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant ym mhob rhanbarth ac fe'u sefydlir i hyrwyddo ymagwedd strategol tuag at ddatblygu'r gweithlu, trwy nodi ystyriaethau, datblygiadau ac atebion rhanbarthol.

Caiff pob partneriaeth ei rheoli gan grŵp strategol, y mae ei gadeirydd yn eistedd ar Bwyllgor Datblygu'r Gweithlu Cyngor Gofal Cymru. Telir cyllid i awdurdod lleol cynhaliol gan nad yw'r partneriaethau eu hunain yn gyrff a gyfansoddwyd yn ffurfiol.

**Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 (parhad)**

| **6(ii) Gwariant ar raglenni heb fod yn ymwneud â grantiau** | **2009-10** | **2008-09** |
|---|---|---|
| | **£000** | **£000** |
| Datblygu'r Gweithlu gan gynnwys Cymwysterau a Safonau | 440 | 584 |
| Sgiliau Gofal a Datblygu | 113 | 54 |
| Rheoleiddio'r Gweithlu | 532 | 600 |
| Rheoleiddio Hyfforddiant Gwaith Cymdeithasol | 77 | 126 |
| | 1,162 | 1,364 |

Mae'r Cyngor Gofal, a drwyddedwyd ym mis Chwefror 2005, yn rhan o Gyngor Sgiliau Sector y DU (SSC), sef Sgiliau Gofal a Datblygu (SfC&D). Rôl yr SSC yw cynnig arweiniad a gweithio gyda chyflogwyr i nodi bylchau mewn sgiliau, gwella cynhyrchedd, cynyddu cyfleoedd i hybu sgiliau a gwella'r cyflenwad dysgu i'r sector.

Mae'r trafodion yn cynnwys costau gweithredu elfen Cymru o gynllun busnes y Cyngor Sgiliau Sector. Y costau a gafwyd yn 2009-10 oedd £113,000 a chafwyd cost ychwanegol o £38,000 yn gysylltiedig â chyflogeion cyfnod sefydlog, sydd wedi'i chynnwys yn y costau Cyflogaeth. Cafodd y costau hyn eu hail-godi ar SfC&D ac mae'r swm derbyniadwy, sef £151,000 yn cael ei ddangos yn y Cyfrif Gwariant Net.

Yn ogystal â'r Cymorth Grant a gafwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, derbyniwyd £103,000 o gyllid yn benodol ar gyfer gwaith wedi'i gomisiynu, fel y'i dangosir yn y Cyfrif Gwariant Net. Cafwyd £35,000 o'r costau hyn mewn perthynas â chyflogeion cyfnod sefydlog ac mae wedi'i gynnwys yn y costau Cyflogaeth. Mae gweddill y costau hyn wedi'u cynnwys yn y £1,162,000 cyfanswm gwariant ar raglenni heb fod yn ymwneud â grantiau ar gyfer 2009-10.

Mae'r Cyngor Gofal, ynghyd â'i chwaer gyrff yn y Deyrnas Unedig, yn cyfrannu at ddatblygiad, cyfalaf a chostau cynnal Cofrestr Gwaith Cymdeithasol y DU sy'n cael ei reoli gan y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol (GSCC). Y cyfraniad yn 2009-10 oedd £142,000 (2008-09 £195,000 sydd wedi'i gynnwys mewn gwariant o dan 'Rheoleiddio'r Gweithlu' uchod.

Mae costau rhaglenni eraill nad ydynt yn ymwneud â grantiau yn ymgorffori swyddogaethau'r Cyngor Gofal fel y'u disgrifir yn Neddf Safonau Gofal 2000.

**Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 (parhad)**

## 7. Costau Gweinyddol

| | 2009-10 £000 | 2008-09 £000 |
|---|---|---|
| Treuliau'r Cadeirydd, aelodau a staff | 172 | 134 |
| Costau staff eraill | 177 | 241 |
| Rhent o dan brydlesu Gweithredu- Llety | 150 | 137 |
| Costau Safleoedd eraill | 222 | 163 |
| Gweithdai, seminarau, hyrwyddiadau, cyhoeddiadau | 125 | 109 |
| Offer a meddalwedd | 326 | 230 |
| Rhent o dan brydlesi Gweithredu-Llungopïwyr | 2 | 3 |
| Gweinyddu | 88 | 93 |
| Archwilio allanol-Gwaith archwilio | 18 | 18 |
| Archwilio allanol-Gwaith Sicrwydd Ychwanegol | 2 | 2 |
| Ffïoedd proffesiynol eraill | 146 | 195 |
| | 1,428 | 1,325 |

Mae'r cynnydd mewn Costau Safleoedd Eraill yn adlewyrchu'r costau'n gysylltiedig â'r swyddfa newydd yng Nghaerdydd. Mae'r swyddfa newydd hefyd wedi cyfrannu at y cynnydd mewn Offer a Meddalwedd.

.

**Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 (parhad)**

## 8. Eiddo, Peiriannau ac Offer

y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010

| | Adnewyddu Adeiladau | Celfi ac Offer | Technoleg Gwybodaeth | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2009 | 201 | 309 | 421 | 931 |
| Ychwanegiadau yn y cyfnod | 85 | 21 | 45 | 151 |
| Gwarediadau yn y cyfnod | - | - | (35) | (35) |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 286 | 330 | 431 | 1,047 |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2009 | 101 | 180 | 341 | 622 |
| Codwyd yn y flwyddyn | 22 | 39 | 41 | 102 |
| Gwarediadau yn y cyfnod | - | - | (35) | (35) |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 123 | 219 | 347 | 689 |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 163 | 111 | 84 | 358 |
| Ar 1 Ebrill 2009 | 100 | 129 | 80 | 309 |

y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth2009

| | Adnewyddu Adeiladau | Celfi ac Offer | Technoleg Gwybodaeth | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cost** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | 201 | 307 | 502 | 1,010 |
| Ychwanegiadau yn y cyfnod | - | 2 | 34 | 36 |
| Gwarediadau yn y cyfnod | - | - | (115) | (115) |
| Ar 31 Mawrth 2009 | 201 | 309 | 421 | 931 |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2008 | 81 | 135 | 407 | 623 |
| Codwyd yn y flwyddyn | 20 | 45 | 49 | 114 |
| Gwarediadau yn y cyfnod | - | - | (115) | (115) |
| Ar 31 Mawrth 2009 | 101 | 180 | 341 | 622 |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2009 | 100 | 129 | 80 | 309 |
| Ar 1 Ebrill 2008 | 120 | 172 | 95 | 387 |

**Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 (parhad)**

## 9. Asedau Anniriaethol

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 | |
|---|---|---|
| | **Meddalwedd** | **Cyfansymiau** |
| | **£000** | **£000** |
| **Cost** | | |
| Ar 1 Ebrill 2009 | - | - |
| Ychwanegiadau yn y cyfnod | 51 | 51 |
| Gwarediadau yn y cyfnod | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 51 | 51 |
| **Dibrisiant** | | |
| Ar 1 Ebrill 2009 | - | - |
| Codwyd yn y flwyddyn | 1 | 1 |
| Gwarediadau yn y cyfnod | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 1 | 1 |
| **Gwerth llyfr net** | | |
| Ar 31 Mawrth 2010 | 50 | 50 |
| Ar 1 Ebrill 2009 | - | - |

**Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 (parhad)**

### 10. Offerynnau Ariannol

Gan y bodlonir gofynion ariannol y Cyngor Gofal gan Gymorth Grant oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru yn bennaf, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl fwy cyfyngedig o ran creu a rheoli risg nag a fyddai'n gymwys i gorff nad yw'n perthyn i'r sector cyhoeddus. Mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol â phryniant disgwyliedig a gofynion defnyddio y Cyngor Gofal, ac nid yw'r Cyngor Gofal felly yn cael ei amlygu i lawer o risg credyd, risg hylifedd neu risg y farchnad.

### 11. Symiau Masnach sy'n Dderbyniadwy ac asedau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth | 31 Mawrth | 1 April |
|---|---|---|---|
| | **2010** | **2009** | **2008** |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Symiau masnach sy'n dderbyniadwy: | | | |
| Sgiliau Gofal a Datblygu | 82 | 80 | 140 |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru | 16 | 4 | - |
| Awdurdodau Lleol | 2 | 1 | 2 |
| Dyledwyr y Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol | 16 | 15 | 12 |
| Cyrff eraill | - | 1 | - |
| Symiau derbyniadwy eraill: | | | |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 91 | 132 | 149 |
| | 207 | 233 | 303 |

Mae dyledwyr y Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol yn ad-daladwy dros fwy nag un flwyddyn ariannol, gyda myfyrwyr yn cytuno ar gontractau ad-dalu ac yn llofnodi contractau sy'n ystyried eu hamgylchiadau unigol. Fodd bynnag, at ddibenion datgelu, mae'r holl weddillion wedi cael eu cynnwys yn ddyledus cyn pen un flwyddyn ariannol.

### 12. Arian parod a chyfwerth ag arian parod

| | 2009-10 | 2008-09 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 82 | 99 |
| Newid net mewn balansau arian parod a balansau cyfwerth ag arian parod | 90 | (17) |
| Balans ar 31 Mawrth | 172 | 82 |

Roedd y balansau ar 1 Ebrill 2008, 31 Mawrth 2009, a 31 Mawrth 2010 yn cael eu cadw mewn Banciau Masnachol ac fel arian mewn llaw.

**Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 (parhad)**

### 13. Symiau masnach sy'n daladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2010 | 31 Mawrth 2009 | 1 Ebrill 2008 |
|---|---|---|---|
| **Symiau yn dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Symiau masnach sy'n daladwy: | | | |
| Awdurdodau Lleol | 20 | 9 | 22 |
| Cyrff Eraill | 4 | 115 | 147 |
| Trethiant Arall a Nawdd Cymdeithasol | 1 | - | 2 |
| Symiau taladwy eraill: | | | |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 307 | 145 | 246 |
| | 332 | 269 | 417 |

### 14. Ymrwymiadau Cyfalaf

Roedd ymrwymiadau Cyfalaf wedi'u Contractio ar 31 Mawrth 2010 nad oeddent fel arall wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn yn gwneud cyfanswm o ddim (Dim ar 31 Mawrth 2009).

### 15. Ymrwymiadau o dan Brydlesi Gweithredu

Rhoddir cyfanswm taliadau prydlesi lleiaf y dyfodol o dan brydlesi gweithredu yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol.

| **Mae'r rhwymedigaethau o dan brydlesi gweithredu yn cynnwys:** | **31 Mawrth 2010** | **31 Mawrth 2009** | **1 Ebrill 2008** |
|---|---|---|---|
| Tir ac Adeiladau: | **£000** | **£000** | **£000** |
| Yn hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 125 | 122 | - |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 73 | 25 | 133 |
| | 198 | 147 | 133 |
| Arall | | | |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | - | - | 1 |
| Yn hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 3 | 2 | - |
| | 3 | 2 | 1 |

### 16. Rhwymedigaethau buddiannau ymddeol

#### (i) Staff Presennol a Phensiynwyr

Mae'r Cyngor Gofal yn cymryd rhan mewn cynllun pensiwn a ariennir gan gyflogwyr lluosog sy'n darparu buddiannau ar oedran ymddeol arferol o 65. Mae asedau'r cynllun yn cael eu dal ar wahân i asedau'r Cyngor Gofal ac fe'u gweinyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Cafodd cyfran y Cyngor Gofal o asedau a rhwymedigaethau gwaelodol y cynllun ei nodi ar wahân am y tro cyntaf yn y prisiad actiwaraidd ar 31 Mawrth 2004.

**Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 (parhad)**

## 16. parhad

### (ii) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, cynllun â buddiannau wedi'u diffinio

Mae'r Cynllun wedi'i gontractio allan o Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth ar Sail Enillion (SERPS) ac nid yw'n destun gofynion pensiwn gofynnol Deddf Pensiynau 1995. Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1977 (rheoliad 77) yn pennu bod rhaid cyflawni prisiadau actiwaraidd ar 31 Mawrth 1998, a phob tair blynedd wedi hynny. Mae'r datgeliadau isod yn gysylltiedig â Chynllun Pensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac fe'u darparwyd gan actwari'r Cynllun, sef Hewitt Associates Limited, Llundain.

### 16(iii) Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol rhif 19 (IAS 19 Datgeliad)

Mae'r datgeliadau isod yn gysylltiedig â'r rhwymedigaethau a ariennir yng Nghynllun Pensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y "Gronfa") sy'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r Cyngor Gofal yn cymryd rhan yn y Gronfa sy'n darparu buddiannau diffiniedig ar sail cyflog pensiynadwy terfynol aelodau.

Yn unol â Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol rhif 19 – Buddiannau Cyflogeion (IAS 19), mae'n ofynnol i ddatgelu gwybodaeth benodol ynghylch asedau, rhwymedigaethau ac incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â chynlluniau pensiwn.

**Cyfraniadau ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2011**

Amcangyfrifir mai cyfraniadau rheolaidd y Cyflogwr i'r Gronfa ar gyfer y cyfnod cyfrifo yn dod i ben 31 Mawrth 2011 yw £0.36M. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd angen Cyfraniadau Straen ar Gronfa.

**Tybiaethau**

Cynhaliwyd y prisiad actiwaraidd diweddaraf o rwymedigaethau Cyngor Gofal Cymru ar 31 Mawrth 2007. Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actwariaid annibynnol cymwys wrth ddiweddaru'r prisiad diweddaraf o'r gronfa at ddibenion IAS 19 oedd:

**Prif Dybiaethau Ariannol**

| | 31 Mawrth 2010 (% y flwyddyn) | 31 Mawrth 2009 (% y flwyddyn) | 31 Mawrth 2008 (% y flwyddyn) |
|---|---|---|---|
| Chwyddiant | 4.0 | 3.7 | 3.7 |
| Cyfradd cynnydd cyffredinol mewn cyflogau* | 5.5 | 5.2 | 5.2 |
| Cyfradd y cynnydd i bensiynau a delir | 4.0 | 3.7 | 3.7 |
| Cyfradd y cynnydd i bensiynau gohiriedig** | 4.0 | 3.7 | 3.7 |
| Cyfradd disgownt | 5.6 | 6.4 | 6.8 |

* Yr un graddfeydd cyflog dyrchafol sy'n gysylltiedig ag oedran a ddefnyddiwyd adeg prisiad actiwaraidd y Gronfa ar 31 Mawrth 2007.
** Yn uwch na chynnydd Isafswm Pensiwn Gwarantedig mewn taliadau lle bo'n briodol

**Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 (parhad)**

**16. (iii) parhad**

## Prif Dybiaethau Demograffig

## Marwoldeb Ôl-ymddeol

| | 31 Mawrth 2010 | 31 Mawrth 2009 | 31 Mawrth 2008 |
|---|---|---|---|
| **Gwrywod** | | | |
| Tabl sylfaenol (yn 2007) | PNMA00 gyda lwfans am ffactorau gwella MC hyd at 2007 | PNMA00 gyda lwfans am ffactorau gwella MC hyd at 2007 | PNMA00 gyda lwfans am ffactorau gwella MC hyd at 2007 |
| Graddio hyd at gyfraddau uwchlaw'r tabl sylfaen* | 125% | 125% | 125% |
| Ffactorau Gwella Carfan (o 2007) | 80% o LC | 80% o LC | 100% o MC |
| Tanategu gofynnol i Ffactorau Gwella | 1.25% | 1.25% | 1.00% |
| Hyd Oes y Dyfodol o 65 oed ymlaen (65 oed ar hyn o bryd) | 21.2 | 21.1 | 20.3 |
| Hyd Oes y Dyfodol o 65 oed ymlaen (45 oed ar hyn o bryd) | 23.5 | 23.4 | 22.2 |
| **Benywod** | | | |
| Tabl sylfaenol (yn 2007) | PNMA00 gyda lwfans am ffactorau gwella MC hyd at 2007 | PNMA00 gyda lwfans am ffactorau gwella MC hyd at 2007 | PNMA00 gyda lwfans am ffactorau gwella MC hyd at 2007 |
| Graddio hyd at gyfraddau uwchlaw'r tabl sylfaen* | 120% | 120% | 120% |
| Ffactorau Gwella Carfan (o 2007) | 60% o LC | 60% o LC | 100% o MC |
| Tanategu gofynnol i Ffactorau Gwella | 1.25% | 1.25% | 0.50% |
| Hyd Oes y Dyfodol o 65 oed ymlaen (65 oed ar hyn o bryd) | 23.6 | 23.5 | 22.7 |
| Hyd Oes y Dyfodol o 65 oed ymlaen (45 oed ar hyn o bryd) | 25.8 | 25.7 | 23.9 |

* Mae'r ffactorau graddio a ddangosir yn gymwys i ymddeoliadau mewn iechyd arferol

Cymudiad- Ar gyfer pob un o'r tair blwyddyn ariannol tybir bod pob aelod yn cyfnewid 50% o'r uchafswm a ganiateir o'u hawliadau pensiwn cyn 1 Ebrill 2008. Yn ogystal, tybir bod pob aelod yn cyfnewid 75% o'r uchafswm a ganiateir o'u hawliadau pensiwn ar ôl 31 Mawrth 2008.

**Adennill a Ddisgwylir ar Asedau**

Dangosir rhaniad bras yr asedau ar gyfer y Gronfa yn ei chyfanrwydd (ar sail data a gyflenwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu Cronfeydd) yn y tabl isod. Dangosir hefyd y cyfraddau adennill tybiedig a fabwysiadwyd gan y Cyflogwr at ddibenion IAS 19.

**Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 (parhad)**

## 16. (iii) parhad

| | Cyfradd adennill hirdymor a ddisgwylir ar 31 Mawrth 2010 (% y flwyddyn)* | Rhaniad yr Asedau ar 31 Mawrth 2010 (%) | Cyfradd adennill hirdymor a ddisgwylir ar 31 Mawrth 2009 (% y flwyddyn)* | Rhaniad yr Asedau ar 31 Mawrth 2009 (%) | Cyfradd adennill hirdymor a ddisgwylir ar 31 Mawrth 2008 (% y flwyddyn)* | Rhaniad yr Asedau ar 31 Mawrth 2008 (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ecwitïau | 8.0 | 66.8 | 7.0 | 61.7 | 7.6 | 73.3 |
| Eiddo | 8.5 | 5.9 | 6.0 | 4.3 | 6.6 | 3.8 |
| Bondiau'r Llywodraeth | 4.5 | 14.1 | 4.0 | 17.9 | 4.6 | 11.6 |
| Bondiau Corfforaethol | 5.5 | 10.1 | 5.8 | 8.4 | 6.8 | 2.4 |
| Arian parod | 0.7 | 3.1 | 1.6 | 4.2 | 6.0 | 4.7 |
| Arall** | 8.0 | 0 | 1.6 | 3.5 | 6.0 | 4.2 |
| **Cyfanswm** | 7.1 | 100.0 | 5.9 | 100.0 | 7.1 | 100.0 |

* Mae'r gyfradd adennill ddisgwyliedig gyffredinol ar asedau'r Gronfa yn gyfartaledd wedi'i bwysoli o gyfradd adennill ddisgwyliedig unigol pob dosbarth o asedau, ac fe'i dangosir yn rhes waelod y tabl uchod.
**Mae daliadau eraill yn cynnwys cronfeydd gwarchod, daliadau arian cyfred, blaendrafodion dyrannu asedau ac eraill. Rydym wedi tybio eleni y bydd y rhain yn sicrhau adenillion yn unol ag ecwitïau.

Mae Cyngor Gofal Cymru'n mabwysiadu dull blociau adeiladu o bennu cyfradd yr adennill ar asedau'r Gronfa. Caiff marchnadoedd hanesyddol eu hastudio a thybir bod asedau sydd ag anwadalrwydd uwch yn cynhyrchu adenillion uwch yn unol ag egwyddorion marchnad cyfalaf sy'n cael eu derbyn yn helaeth. Mae'r gyfradd adennill dybiedig ar bob dosbarth asedau wedi'u cyflwyno yn y nodyn hwn. Bydd y gyfradd adennill gyffredinol a ddisgwylir ar asedau yna'n cael ei chodi o gyfansymio'r adennill disgwyliedig ar gyfer pob dosbarth o asedau dros y dyraniad ased gwirioneddol i'r Gronfa ar 31 Mawrth 2010.

### Cysoni'r Statws a Ariennir i'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

| | Gwerth ar 31 Mawrth 2010 (£M) | Gwerth ar 31 Mawrth 2009 (£M) | Gwerth ar 31 Mawrth 2008 (£M) |
|---|---|---|---|
| Gwerth teg yr Asedau | 5.10 | 3.25 | 3.80 |
| Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig a ariennir | 7.50 | 4.98 | 3.90 |
| Pensiwn (rhwymedigaeth) | (2.40) | (1.73) | (0.10) |

**Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 (parhad)**
**16. (iii) parhad**

### Dadansoddiad o'r swm a godwyd ar y Cyfrif Gwariant Net

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 (£M) | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 (£M) | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 (£M) |
|---|---|---|---|
| Cost gwasanaeth presennol | 0.30 | 0.21 | 0.31 |
| Cost gwasanaethau gorffennol | - | 0.03 | 0.05 |
| Cost Llog | 0.34 | 0.27 | 0.22 |
| Adennill a ddisgwylir ar asedau | (0.20) | (0.27) | (0.23) |
| Cost cwtogiadau | - | - | - |
| Cost Setliadau | - | - | - |
| Traul a Gydnabuwyd | 0.44 | 0.24 | 0.35 |

### Newidiadau i werth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn ystod y flwyddyn

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 (£M) | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 (£M) | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 (£M) |
|---|---|---|---|
| Gwerth presennol agoriadol y rhwymedigaethau buddiannau diffiniedig | 4.98 | 3.90 | 3.91 |
| Cost gwasanaeth presennol | 0.30 | 0.21 | 0.31 |
| Cost Llog | 0.34 | 0.27 | 0.22 |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr | 0.15 | 0.14 | 0.11 |
| Colledion/(enillion) actiwaraidd ar rwymedigaethau* | 1.65 | 0.57 | (0.70) |
| Buddiannau net a dalwyd allan# | 0.08 | (0.14) | - |
| Cost gwasanaeth gorffennol | - | 0.03 | 0.05 |
| Cynnydd net mewn rhwymedigaethau o warediadau a chaffaeliadau | - | - | - |
| Cwtogiadau | - | - | - |
| Setliadau | - | - | - |
| Gwerth presennol terfynol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig | 7.50 | 4.98 | 3.90 |

*Yn cynnwys newidiadau i'r tybiaethau actiwaraidd
#Yn cynnwys llif net arian parod o'r Gronfa mewn perthynas â'r cyflogwr, ac eithrio cyfraniadau ac unrhyw gyfandaliadau marwolaeth mewn swydd a dalwyd, ac yn cynnwys lwfans bras ar gyfer cost ddisgwyliedig y cyfandaliadau marwolaeth mewn swydd

**Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 (parhad)**

## 16. (iii) parhad

### Newidiadau i Werth Teg Asedau yn ystod y Flwyddyn

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 (£M) | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 (£M) | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 (£M) |
|---|---|---|---|
| Gwerth teg agoriadol yr asedau | 3.25 | 3.80 | 3.04 |
| Adenillion disgwyliedig ar asedau | 0.20 | 0.27 | 0.23 |
| Enillion/(colledion) actiwaraidd ar asedau | 1.10 | (1.11) | 0.19 |
| Cyfraniadau gan y Cyflogwr | 0.32 | 0.29 | 0.23 |
| Cyfraniadau gan y Cyfranogwyr | 0.15 | 0.14 | 0.11 |
| Buddiannau net a dalwyd allan# | 0.08 | (0.14) | - |
| Cynnydd net mewn asedau o warediadau a chaffaeliadau | - | - | - |
| Setliadau | - | - | - |
| Gwerth teg terfynol yr asedau | 5.10 | 3.25 | 3.80 |

# Mae'n cynnwys y llif arian parod net o'r Gronfa mewn perthynas â'r cyflogwr, ac eithrio cyfraniadau ac unrhyw gyfandaliadau marwolaeth mewn swydd a dalwyd, ac yn cynnwys lwfans bras ar gyfer cost ddisgwyliedig y cyfandaliadau marwolaeth mewn swydd.

| **Adenillion Gwirioneddol ar Asedau** | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 (£M) | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 (£M) | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 (£M) |
|---|---|---|---|
| Adenillion disgwyliedig ar asedau | 0.20 | 0.27 | 0.23 |
| Elw/(colled) actiwaraidd ar asedau | 1.10 | (1.11) | 0.19 |
| Adenillion gwirioneddol ar asedau | 1.30 | (0.84) | 0.42 |

**Dadansoddiad o'r Swm a gydnabyddir yn y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr**

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 (£M) | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 (£M) | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 (£M) |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm (colledion)/enillion actiwaraidd | (0.55) | (1.68) | 0.89 |
| Cyfanswm (colled)/elw yn y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr | (0.55) | (1.68) | 0.89 |

**Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 (parhad)**

**16. (iii) parhad**

**Hanes Gwerthoedd Asedau, Gwerth Presennol y Rhwymedigaeth Buddiannau Diffiniedig a Gwarged/Diffyg***

| | Ar 31 Mawrth 2010 (£M) | Ar 31 Mawrth 2009 (£M) | Ar 31 Mawrth 2008 (£M) |
|---|---|---|---|
| Gwerth teg yr asedau | 5.10 | 3.25 | 3.80 |
| Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig | 7.50 | 4.98 | 3.90 |
| (Diffyg) | (2.40) | (1.73) | (0.10) |

* Gellir adeiladu'r hanes hwn dros amser ac nid oes angen ei lunio'n ôl-weithredol (a phan fydd wedi'i gwblhau, bydd yn dangos y cyfnod cyfredol a'r pedwar cyfnod blaenorol)

**Hanes Profiad Enillion a Cholledion***

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2009 | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2008 |
|---|---|---|---|
| Profiad enillion/(colledion) ar asedau | | | |
| Swm(£M's) | 1.10 | (1.11) | 0.19 |
| Canran yr Asedau | 21.6% | -34.2% | 5.0% |
| Profiad (colledion) ar rwymedigaethau# | | | |
| Swm(£M's) | 0.00 | 0.00 | (0.28) |
| Canran gwerth presennol y rhwymedigaethau | 0.0% | 0.0% | -7.2% |

* Gellir adeiladu'r hanes hwn dros amser ac nid oes angen ei lunio'n ôl-weithredol (a phan fydd wedi'i gwblhau, bydd yn dangos y cyfnod cyfredol a'r pedwar cyfnod blaenorol).

# Mae'r eitem hon yn cynnwys enillion/(colledion) mewn perthynas â'r profiad rhwymedigaeth yn unig ac nid yw'n cynnwys unrhyw newid mewn rhwymedigaethau mewn perthynas â newidiadau i'r tybiaethau actiwaraidd a ddefnyddiwyd.

## 17. Rhwymedigaethau Amodol a ddatgelwyd o dan IAS 37

Nid oes unrhyw rwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2010.

**Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 (parhad)**

## 18. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Cyngor Gofal wedi cael amrywiol drafodion perthnasol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n cael ei hystyried yn barti cysylltiedig. Dyma gyrff eraill yr ystyrir eu bod yn bartïon cysylltiedig hefyd:

Cyngor Dinas Caerdydd
Y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol
Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban
Prifysgol Casnewydd
Design Stage

### Aelodau a Staff y Cyngor Gofal

Ni fu unrhyw gyflogeion yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag unrhyw drafodion gyda'r Cyngor Gofal yn ystod y flwyddyn, ar wahân i hawliadau treuliau arferol, taliadau cyflog ac ati.

Mi oedd trafodion gyda sefydliadau amrywiol cysylltiedig yn ystod y flwyddyn. Ni oedd y trafodion hyn gydag aelodau unigol o'r Cyngor, yn hytrach gyda sefydliadau a gyflogwyd neu talwyd yr unigolyn yn ystod y flwyddyn. Mi oedd rhan helaeth y trafodion yn ymwneud a thaliadau Cyllid Cyfle Dysgu Ymarfer. Gweler y tafodon isod :-

| Aelod y Cyngor | Perthynas a'r sefydliad cysylltiedig | Trafodion yn y Cyfnod |
|---|---|---|
| Peter Crews | Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol a Gwasanaethau Dydd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | £102,295 |
| John Dixon | Yr Aelod Gweithredol dros Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles<br>Cyngor Dinas Caerdydd | £242,724 |
| John Dixon | Rheolwr Gwasanaethau Cyfryngau Newydd<br>Design Stage | £33,492 |
| Amelia Lyons | Deon, Ysgol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Prifysgol Cymru, Casnewydd | £74,975 |
| Ellis Williams | Cyfarwyddwr Grŵp<br>(Gwasanaethau Cymunedol a Gwasanaethau Plant)<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | £102,295 |

**Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 (parhad)**

## 19. Asedau Trydydd Parti

Nid yw'r Cyngor Gofal yn cadw unrhyw asedau trydydd parti lle mae'n gweithredu fel ceidwad neu fel ymddiriedolwr ynddynt.

## 20. Digwyddiadau wedi'r cyfnod cofnodi

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau wedi'r cyfnod cofnodi sy'n galw am eu datgelu nac am eu haddasu yn natganiadau ariannol 31 Mawrth 2010.